

ECO'r Wyddfa

 Dilynwch ni ar facebook
www.ecorwyddfa.co.uk

Rhif: 463

Mawrth 2018

Pris: 70c



Balchder bro plant Llanberis

Mae plant sy'n mynychu clwb celf yn Y Festri yn Llanberis wedi cael y cyfle yn ddiweddar i arwain mewn ymgyrch atal sbwriel a baw cŵn yn yr ardal. Roedd eu hymdrechion yn rhan o ymgyrch ar y cyd gyda grŵp preswylwyr lleol Pentref Taclus Llanberis a thîm Trefi Taclus Cyngor Gwynedd.

Roedd y plant, sy'n rhan o glwb celf lleol 'Make Your Marks', wedi gwir mwynhau cyfarfod gyda'r grŵp Pentref Taclus a dysgu am ba mor ddrwg mae sbwriel yn gallu bod i'r amgylchedd, a chafwyd cyfle iddynt hefyd godi sbwriel yn eu maes chwarae lleol gydag aelodau o'r grŵp lleol.

Yn ddiweddarach fe aeth y plant ati i greu posterï lliwgar i amlygu'r materion oedd o bryder iddynt. O dan y faner 'Caru Llanberis! - 'Caru Ein Byd!' bydd y posterï yn cael eu gosod o gwmpas y pentref i gyfleu'r neges bwysig.

Un o'r plant gymerodd ran oedd Cerys, sy'n naw oed: "Mae'n bwysig i bobl codi eu sbwriel i fyny, fel nad yw'n gwneud i'n pentref edrych yn flêr neu frifo'r amgylchedd. Roedd yn hwyl dylunio'r posterï."

Rhodddwyd y posterï at ei gilydd gan Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, Jonathan Gwyn Neale, ac meddai: "Mae hi wedi bod yn bleser i weithio gyda'r plant yn Y Festri yn eu hymgyrch i helpu gwarchod eu hamgylchedd lleol. Mae eu brwdfrydedd yn glir i'w gweld ac mae'n wych eu bod yn gallu rhoi hyn ar waith i greu'r posterï ffantastig yma."

Dywedodd Patricia Pitts, sy'n arwain grŵp amgylchedd lleol Pentref Taclus Llanberis: "Rydym yn falch iawn o gael y cyfle i weithio gyda'r Festri a Threfi Taclus i greu'r arwyddion. Gobeithio y gwnaiff yr arwyddion dynnu sylw pobl at effaith sbwriel ar Lanberis a'i hamgylchedd arbennig."

Yn siarad ar ran grŵp y plant oedd Thomasine Thomkinson, ac meddai: "Mae natur ardal Llanberis mor hardd ac felly rydym yn awyddus i gadw ei naws prydferth. A pha well ffordd i godi ymwybyddiaeth gyda'r plant na phrosiect celf, a thrwy hyn helpu i gadw'r pentref yn lle glan a diogel iddynt chwarae."

Ychwanegodd Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd, Gareth Wyn Griffith: "Unwaith eto mae plant Gwynedd yn adrodd ar broblemau amgylcheddol eu cymuned a gyda chymorth Trefi Taclus maent wedi medru gwneud rhywbeth yn ei gylch. Mae gan bawb gyfrifoldeb i beidio taflu sbwriel na gadael baw cŵn ond da yw gweld mai plant Gwynedd sydd yn ein haddysgu ar y problemau difrifol yma."

Mae'r Festri yn elusen gofrestredig sydd wedi ei sefydlu i hyrwyddo a datblygu mentrau celf yn y gymuned a phrosiectau yn Llanberis a'r cyffiniau. Mae â'r bwriad o barchu'r amgylchedd naturiol a lleihau ein heffaith arno. Mae'r Festri ar agor i bawb.

Mae'r rheini sy'n taflu sbwriel mewn lleoliad cyhoeddus yn cyflawni trosedd. Gall unrhyw un sy'n cael eu darganfod yn euog o daflu sbwriel mewn man cyhoeddus wynebu dirwy hyd at £2,500. I adrodd am unrhyw achos o dipio slei bach, cysylltwch hefo tîm gorfodaeth stryd Cyngor Gwynedd ar 01766 771000.

Mae Cyllun Trefi Taclus Gwynedd wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn anelu i wella'r amgylchedd lleol.

Am fwy o wybodaeth am gynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd neu os hoffech chi ddechrau eich grŵp cymunedol eich hun, cysylltwch â'r tîm ar 01766 771000 neu gyrrwch e-bost at trefitaclus@gwynedd.llyw.cymru os ydych am wneud cais am becyn cymunedol.

RHIF 463
Mawrth 2018

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2017

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Ebrill	Sul 18 Mawrth	Iau 29 Mawrth*	Cwm y Glo
Mai	Sul 22 Ebrill	Gwener 4 Mai	Deiniolen
Mehefin	Sul 20 Mai	Gwener 1 Mehefin	Brynrefail

LLYTHYRAU

Annwyl Gyfaill,
Ddechrau mis Mawrth mae'n wythnos aelodaeth Cymdeithas
yr Iaith Gymraeg, ac felly dyma anfon gair i ofyn i'ch darllenwyr
ymaelodi er mwyn cefnogi'r Gymraeg.

Ers mwy na hanner can mlynedd mae Cymdeithas yr Iaith wedi bod
yn brwydro i sicrhau dyfodol i'r iaith. Rydym wedi ennill llawer ond
mae ffordd bell iawn i fynd cyn cyrraedd y nod. Mae Llywodraeth
Cymru wedi cytuno i nod y Gymdeithas o greu miliwn o siaradwyr
Cymraeg, ond heb ymrwymo i'r camau gweithredu mwy manwl
fydd yn sicrhau'r miliwn. Bydd y blynyddoedd nesaf yn hollbwysig
o ran sicrhau dyfodol mwy cadarn i'r Gymraeg o safbwynt iechyd,
darlledu, addysg a llawer iawn mwy.

Er mwyn llwyddo, mae angen rhagor o aelodau ar Gymdeithas yr
Iaith ym mhob rhan o'r wlad. Mae modd i chi wneud gwahaniaeth
ac felly dyma ni'n gofyn i chi am eich help. Un weithred fach. Un
taliad bach bob mis neu am y flwyddyn fel dych chi'n gallu. Bydd
yn gwneud gwahaniaeth a byddwch yn gwybod eich bod wedi
helpu sicrhau dyfodol i'r iaith. Dewch.

Gallwch ymaelodi â'r Gymdeithas drwy ein gwefan, cymdeithas.
cymru/ymaelodi, er mwyn talu gyda'ch cerdyn banc, neu mae
croeso i chi dalu trwy siec at Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, Ystafell
5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ. Mae croeso
i chi ein ffonio ar 01970 624501 hefyd, am fwy o wybodaeth neu i
drefnu aelodaeth dros y ffôn.

Mae angen eich cefnogaeth er mwyn i ni allu parhau i frwydro dros
ddyfodol mwy cadarn i'r iaith.

Ewch ati heddiw i ymaelodi. Os na wnewch chi, pwy wneith?

Yn gywir,
Steffan Webb

Swyddog Aelodaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

DALIER SYLW

Dydd Sul 18fed o Fawrth yw'r dyddiad ar gyfer anfon POB
cyfraniad ar gyfer Eco Ebrill.

Mae angen anfon y cynnyrch i'r Wasg yn gynt er mwyn iddynt
fedru argraffu a danfon y copiau erbyn Dydd Iau 29ain o Fawrth.
(Rhaid dilyn y drefn hon oherwydd dyddiadau'r Pasg eleni).

Gyda chwta chwe mis i fynd,
mae gwaith trefnu Eisteddfod
Genedlaethol Caerdydd a gynhelir
rhwng 3 - 11 Awst eleni ym Mae
Caerdydd yn prysuro ymlaen.
Mae cannoedd o wirfoddolwyr
wedi bod yn gweithio'n ddygn ar
y testunau yn ogystal â'r myrdd o
weithgareddau cymunedol sydd
wedi ac yn cael eu trefnu i godi
arian tuag at y £320,000 a osodwyd
fel nod i'r gronfa leol, sef cyfraniad
Caerdydd i'r gost o £4 miliwn a
mwy y flwyddyn sydd i gynnal yr
wyl.

Medd Ashok Ahir, Cadeirydd
y Pwyllgor Gwaith "Mae'r apel
ariannol yn mynd yn dda, ac
yr ydym wedi pasio £200,000
gyda throad y flwyddyn newydd.
Diolch yn fawr i bawb sydd wedi
cefnogi hyd yma. Beth sydd ei

angen yn awr yw un ymdrech fawr
dros y misoedd nesaf i sicrhau ein
bod yn cyrraedd y nod ariannol,
i'n galluogi i gynnal Prifwyl
yma yng Nghaerdydd fydd yn
cwrdd â disgwyliadau'r miloedd
o ymwelwyr ddaw o bob rhan o
Gymru a thu hwnt fis Awst."

Yn ogystal â chyfrannu, mae
unigolion a sefydliadau yn medru
cynnig gwobr ariannol gyda rhai
yn dymuno gwneud hynny er cof
am rywun arbennig. Mae rhoi
gwobr yn ffordd syml ond hynod
effeithiol o gefnogi'r Eisteddfod
Genedlaethol - tybed oes gennych
chi ddiddordeb mewn cyfrannu
ond ddim yn siŵr sut i fynd o'i
chwmpas hi?

Mae cynnig gwobr yn rhwydd,
gellir cysylltu â Swyddfa'r
Eisteddfod drwy dudalen Rhoi

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

£20: Er cof am Deiniol
Hughes, Ty Mawr,
Caeathro; Di-enw, Llanberis

£10: Megan Jones a'r teulu,
Wern, Llanrug.

Annw'l Olygydd

Mis Chwefror, yng ngholofn
'Pigion Byd Natur', ceir
1969 fel dyddiad cyhoeddi
Synopsis Methodica Stirpum
Britannica, sydd gyda llaw'n
gasgliad ffeithiol, mab gofiant,
Naturiaethwr a theithiwr o fri,
ie! John Ray (1627-1705), De
Lloegr. Na! nid yn 1969 ond yn
y flwyddyn 1690 y cyhoeddwyd
Synopsis Methodica...!
Diddorol nodi'n ogystal bod
cofnod o eiddo'r Athro John
Lloyd Williams (1854-1945)
brodor o Blas Isa', Llanrwst, ar
gael, yn ei erthygl gynhwysfawr
'Cripian ar ôl Lili Eryri', gw.
Y Ford Gron, Awst (1933)
221-222, ble d'wedir mai enw
arall ar y Lloydia alpina, sef
'Lili'r Wyddfa', ydyw'r 'Nionyn
Bach'. Ebe J.L.L.W.: 'Am beth
amser galwyd y lili wrth yr enw
'Balbosa', oherwydd y chwydd
ar fôn y planhigyn.'

Dafydd Guto

Gwobr dan adran 2018 y wefan
www.eisteddfod.cymru; dros y
ffôn ar 0845 40 90 400 neu e bostio
gwyb@eisteddfod.org.uk gyda'r
manylyon perthnasol.

Mae gwobrau ariannol ar gael
i'w cyfrannu ymhob adran o'r
Eisteddfod gan amrywio o £15 i
£5,000! Mi fydd pob cyfraniad
o £50 a mwy a dderbynnir cyn
diwedd Ebrill yn cael ei gydnabod
yn y Rhaglen.

Diolch ymlaen llaw am bob
cefnogaeth. Am y wybodaeth
ddiweddraf am yr Eisteddfod
Genedlaethol gan gynnwys
manylyon y cystadlaethau, Maes
Carafanau a gwirfoddoli yng
Nghaerdydd, ewch draw i www.
eisteddfod.cymru

Parhad LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd

Hoffem dynnu sylw busnesau yn mro Eco'r Wyddfa at gymorth a chefnogaeth sydd ar gael i wneud y gorau o dechnoleg digidol.

Mae Gwynedd Ddigidol yn gynllun gan Gyngor Gwynedd. Rydym ar hyn o bryd yn cyd-weithio'n agos gyda cynllun cenedlaethol 'Cyflymu Cymru i Fusnesau' i annog

busnesau i wneud gwell defnydd o dechnoleg digidol er mwyn:

-- Cwtogi costau

-- Cyrraedd marchnadoedd newydd

-- Tyfu'r busnes

-- Darparu gwell gwasanaeth i'r cwsmer

-- Creu dulliau hyblyg o weithio

Gyda nifer cynyddol o fusnesau ardal Eco'r Wyddfa yn gallu manteisio ar gyflymder uchel o 30MB yr eiliad a mwy i gysylltu gyda'r rhyngwrwyd, mae drysau newydd yn agor sy'n caniatáu busnesau i ddefnyddio technoleg digidol i redeg gwahanol elfennau o weithgareddau busnes.

Fe allai fod mor syml a gwneud defnydd gwell o gyfryngau cymdeithasol ar gyfer marchnata, neu mabwysiadu meddalwedd sydd wedi'i leoli yn y "cwmwl" i reoli cyllid, prosesu cyflogau staff neu i wasanaethu'ch cwmseriaid yn well.

Hoffem felly dynnu sylw eich darllenwyr at y wefan yma fel man dechrau os oes ganddynt ddiddoreb dysgu rhagor am y cyfleon digidol sydd ar gael i fentrau bach a mawr yn ardal Eco'r Wyddfa.

<https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy>

Drwy gofrestru ar gynllun 'Cyflymu Cymru i Fusnesau', mae modd i bob busnes fynychu gweithdy hanner diwrnod arbenigol ac yna derbyn ymweliad rhad ac am ddim i safle'r busnes gan Gynghorydd Digidol cymwysiedig. Cynllun gan Lywodraeth

Cymru ydi hwn, sydd hefyd wedi'i ran gyllido gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Mae modd i ddarllenwyr ein dilyn ni ar Twitter drwy ein cyfrif @GwyneddDdigidol neu hoffi ein tudalen Facebook o dan yr enw 'Gwynedd Ddigidol.' Byddem yn falch iawn o glywed gan rhwydweithiau busnes lleol gan bod modd mewn rhai achosion trefnu gweithdy yn benodol mewn ardal ar gyfer clwstwr o fusnesau sydd wedi mynegi diddordeb o flaen llaw.

Mae croeso i berchnogion busnes yr ardal gysylltu gyda mi ar 01766 77514057 os am drafod ymhellach. Rydym yn awyddus iawn i weld rhagor o fusnesau o Wynedd yn manteisio ar y cyfleon cyffrous sydd ar gael nawr drwy dechnoleg digidol.

Paul Jones – Cydlynnydd Prosiect

Colli Enwau Cymraeg



Mae cryn bryder led-led Cymru ynglŷn â newid enwau – yn enwedig ar dai a ffermydd: hen enwau traddodiadol yn cael eu colli wrth i breswylwyr di-Gymraeg symud i mewn a phenderfynu nad ydynt am gadw'r enw gwreiddiol. A does dim deddfwriaeth i'w hatal rhag gwneud hynny! Daw'r enghraifft ddiweddaraf yn ein bro o'r Waunfawr, ar yr hen ffordd dros ystlys y Cefn Du am Lanberis. A does gen i ddim syniad beth oedd enw gwreiddiol Beech Tree Cottage.

ECO'r
Wyddfa

Cefnogwch ein
hysbysebwr

Yn ystod y mis aeth heibio

• Derbyniodd ‘Rhodd Eryri’ £10,500 y llynedd gan 60 o fusnesau sy’n aelodau o’r ymgyrch i gefnogi cynlluniau cadwriaethol o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae Rhodd Eryri yn annog ymwelwyr i gyfrannu’n wirfoddol i’r cynllun drwy dalu swm bychan ychwanegol o tua £1 at gost aros mewn gwesty, pryd o fwyd neu weithgaredd arall. Mae Rhodd Eryri yn dod dan adain Arloesi Gwynedd Wledig, ac y mae’r arian a gasglwyd yn cael ei ddyblu gyda chyfanswm tebyg o gronfa’r Parc Cenedlaethol. Amcangyfrifir fod y £21,000 yn ddigonol i dalu am hanner y gost o drwsio ac adnewyddu Llwybr Cwellyn (y Snowdon Ranger). Mae’r swm hwn yn sylweddol uwch na’r hyn a gasglwyd ym mlwyddyn gyntaf y cynllun, sef £3,500. Ond, o ystyried fod mwy o ymwelwyr yn anelu am gopa’r Wyddfa na chyfanswm ymwelwyr Ben Nevis, Scafell Pike ac Everest gyda’i gilydd, nid yw £10,500 ond swm digon pitw. Does ond gobeithio y bydd y cynllun yn denu mwy i gyfrannu tuag ato eleni ac yn y blynnyddoedd i ddod.

• Traed moch yw’r disgrifiad o wasanaeth bysus mewn rhannau helaeth o Wynedd yn dilyn colli trwydded Express Motors ym mis Rhagfyr y llynedd. Ac mae rhai ardaloedd yn dioddef yn waeth na’i gilydd. Prinder bysus i gyflenwi’r llwybrau taith oedd yn bodoli yw’r prif reswm am y cwtogi mewn gwasanaeth. Mae’n ymddangos mai Dinorwig a Deiniolen sy’n dioddef waethaf o’r cwtogi yn ein hardal ni. Mae penderfyniad ar gais cwmni newydd Express Motors (Caernarfon) am drwydded yn dal i’w ddisgwyl.

• “Gagendor mewn buddsoddiant”. Dyna sut y disgrifiwyd y gwahaniaeth mewn arian buddsoddi rhwng gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Ar gyfartaledd mae de-ddwyrain Cymru yn derbyn £380 y pen o’i gymharu a £158 y pen yng ngogledd Cymru. Mae galw ar i Lywodraeth Cymru wneud newidiadau sylfaenol i’r modd y mae’r arian yn cael ei ddosrannu fel bo pob rhanbarth yng Nghymru yn cael eu trin yn fwy cyfartal.

• Dau o Gomisiynwyr yr Heddlu yng Nghymru yn galw ar i Fawrth 1af gael ei gyhoeddi yn wyliau cenedlaethol. Bu galw ers blynnyddoedd am gael gwyl swyddogol ar ddydd ein nawddsant, ond gwrthodwyd bob tro. Mae’n rhy hwyr eleni, ond efallai y gweli r llwyddiant o fewn blwyddyn.

• Daeth gwybodaeth fod plac i’w osod ar Faes Caernarfon i gofio ymdrech yr 86 o weithwyr Friction Dynamics (yr hen Ferodo) a’u brwydr ddewr yn erbyn haerllugrwydd Craig Smith, y perchennog o America a’u diswyddodd yn anghyfreithlon. Bu’r dewrion yn picedu’r gwaith am dair blynedd, a bu’r gefnogaeth leol yn hynod frwdfrydig. Mae £5,000 wedi ei gasglu ar gyfer y gwaith, a chytunwyd i’w osod ar y Maes ble cynhaliwyd dwy rali anferthol yn ystod y cyfnod.

• Lladdfa mewn ysgol yn America unwaith eto, ac yn hytrach na cheisio rheolaeth ar arfau, galwodd yr Arlywydd ar i athrawon gael hyfforddiant mewn saethu, a rhoi ‘gwn cuddiedig’ iddynt tra’n y dosbarth.

Ffarwel i Benbont



Wendy Jones sydd wedi bod â gofal am dafarn Penbont am y ddwy ar bymtheg mlynedd diwethaf. Ond ddiwedd Chwefror daeth amser ymddeol, a ffarwelio – ag un ochor i'r bar o leiaf. Bu croeso cynnes yma, a gall timau pel-droed led-led gogledd Cymru dystio i hynny. Felly hefyd yr holl dimau pŵl a dartiau fu'n ymwelwyr dros y blynnyddoedd. Heb anghofio, wrth gwrs, yr holl gwsmeriaid lleol a fu'n mwynhau awyrgylch gartrefol y dafarn am yr holl amser. Gyda dymuniadau gorau ar ymddeoliad hapus.

Gwallt



Mae Stacey wedi bod yn trawsnewid ei chwsmeriad ers dros ddegawd gyda extensions gwallt. Mae'n eu defnyddio i ychwanegu trwch a hyd i wallt naturiol sydd a diffyg cyfaint neu i'r unigolion hynny sydd eisiau gwallt hir a ddim eisiau disgwl iddo dyfu yn naturiol. Eto eleni mae'r cwmni "Great Lengths" sydd yn gysylltiedig hefo enwogion y byd gwallt wedi cydnabod ei gwaith ardderchog ac wedi ei gwobrwyo gyda tystysgrif 'salon aur'.

Newyddion Ysgol Llanrug

Santes Dwynwen



Cynhaliwyd disgo i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen ar Ionawr y 25ain. Daeth llawer o blant i ddathlu drwy ddawnsio a chael cystadleuthau hwyllog.

Pel-rwyd



Cafodd merched blwyddyn 6 hwyl yn y trnament pel-rwyd Yn ddiweddar.

Am dro Ar ddiwrnod sych cyn y gwyliau cafodd plant blwyddyn 2 gyfle i fynd am dro ar hyd rhai o lwybrau Llanrug. Chwilio am wahanol adar oeddynt fel rhan o'i thema.

Gweithgareddau ychwanegol Mae'r ysgol yn brysur hyd yn oed ar ôl 3:30 bob dydd gyda gwahanol glybiau.

Mae hoci a phel droed ar ddechrau'r wythnos gyda'r gerddorfa ar nos Iau ac ar hyn o bryd mae yna glybiau celf ar gyfer cystadlu yn

Athletau'r Urdd



Bu plant blwyddyn 6 yn cynrychioli Ysgol Llanrug yng nghanolfan Brailsford ym Mangor yn ddiweddar yn yr atletau dan do.

Gweithdy crefft amddiffyn



Diolch i Sara Salisbury Roberts a criw BMA o Lanberis am ddod i'r ysgol cyn y gwyliau i drafod sut mae cadw'n heini yn ogytal a chadw'n saff. Bu i'r plant fwynhau y profiad.

yr Eisteddfod.

Dydd Miwsig Cymru Ar y 9fed o Chwefror roedd hi'n ddydd Miwsig Cymru. Bu'r plant yn gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg yn ystod yr wythnos ac yn pledleisio am yr orau. Yn ogystal cynhaliwyd gwasanaeth lle bu Mr Llwyd (sydd yn chwarae i band lleol REU) yn chwarae'r gitar.

Parhad LLANRUG



Diolchiadau Dymuna Megan, Gwenda, Iola a Nia a'r teulu ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn colled o briod, tad, taid a hen daid, Owen Arfon Jones, (Wern).

Diolch i bawb am yr ymweliadau personol, galwadau ffôn, cardiau, blodau a rhoddion a dderbyniwyd tuag at Feddygfa Llanrug.

Diolch i'r meddygon, nyrsys a staff y Feddygfa am eu gofal ac i'r Parchedig Marcus Robinson am arwain y gwasanaeth. Diolch hefyd i Meinir o Dylan Griffith, Ymgymerywyr, am ei threfniant personol a gofalus o'r angladd.

Damweiniau Da yw deall bod Alwena, Cil y Bont, Crawiau, wedi cael dod adref o'r ysbyty yn Stoke lle cafodd driniaeth arbennig yn dilyn damwain yn ei chartref. Brysiwch wella, Alwena.

Bu i Flo Roberts, Glyn Awel, gael damwain car ddrwg iawn yng Nghaeathro. Cludwyd hithau yn fuan i Ysbyty Stoke lle cafodd driniaeth arbenigol. Mae bellach wedi cael dod i Ysbyty Gwynedd . Cofion atoch a phob dymuniad da am wellhad llwyr.

Profedigaethau

Dymunwn gydymdeimlo â Kevin, Ruth a Gruff, Nant y Glyn, yn eu profedigaeth fawr o golli tad, tad yng nghyfraith a thaid arbennig, sef Huw Owen, Bwthyn, Cael Hywel,

Penisarwaun. Cofion at y teulu i gyd sydd â chysylltiadau â Llanrug.

Yn 92 mlwydd oed, bu farw Owen Arfon Jones (Now Wern), Ffordd yr Orsaf, wedi salwch hir. Roedd yn ŵr ffyddlon i Megan, tad annwyl Gwenda, Iola a Nia a thad yng nghyfraith Graham. Taid hynod i Manon, Iwan, Sion, Mererid, Gwenllian ac Elin a hen daid balch Rebecca a Thomas.

Bydd colled fawr i'r teulu a'i holl ffrindiau, roedd Now wrth ei fodd yn sgwrsio ar y stryd ac yn bleser bob amser i wrando arno. Cydymdeimlwn yn fawr â chi yn eich colled.

Wedi gwaieidd hir a brwnt, bu farw Goronwy Williams, Llys Ifor, Ffordd yr Orsaf. Gŵr annwyl Eurwen, tad a thad yng nghyfraith Kevin a Jayne, Keith a Danielle a Sharon. Taid hoffus Dion, Eleri, Anya a Tomos a brawd hoff. Cydymdeimlir â chi fel teulu.

Brysiwch Wella

Cofion gorau a dymuniadau da am wellhad llwyr a buan i Sharon Evans, Stad Talybont, sydd wedi cael triniaethau dros gyfnod hir.

Hefyd i Mair Varney, 1 Hafan Elan, sydd wedi bod yn yr ysbyty ac yn awr yn aros yng Nghartref Foelas. Cofion gorau.

Mae Thomas Owen Hughes, 6 Hafan Elan, wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty ond deallwn ei fod yn gwella. Cofion gorau atoch.

Plaid Cymru

Enillwyr y Clwb Cant am Chwefror

1.. Paul Rawlinson, Bethesda

2.. John Morris, Llanuwchllyn

Merched y Wawr Nos Fawrth, Chwefror 13eg, estynnwyd croeso cynnes i nifer o aelodau gan y Llywydd, Bethanne. Cychwynnwyd y noson gyda Chên y Mudiad, gyda Megan yn cyfeilio. Derbyniwyd ymddiheuriadau ac anfonir ein cofion at Olwen ac Eryl ac at Jean, Treflys, Penisarwaun, wedi ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Trefnwyd Caffi Eisteddfod yr Urdd ar Sadwrn, Chwefror 24ain. Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth ar Sadwrn, Mai 12fed, yn Ysgol Friars, Bangor. Pris £22.

Cynhelir Cinio'r Llywydd Cenedlaethol yng Ngwesty Meifod Bontnewydd ar Ebrill 21ain. Dosbarthwyd copiau o gystadlaethau 2018 y Mudiad, sef Crefft, Ysgrifenedig, Adloniant a Dysgwyr.


Derbyniwyd llythyr gan 'Cwmni Darlun' am gyfres newydd gyffrous ar S4C yn rhoi'r cyfle i bobl gyfarfod mewn cyfres o aduniadau ddaw â phobl at ei gilydd i wireddu dyheadau, neu i weld rhywun o'r gorffennol unwaith yn rhagor. Gellir cysylltu am sgwrs bellach efo Gwen o gwmni teledu 'Darlun' ar 01286 531531 neu gwen@darlun.tv

Gwraig wadd y noson oedd Debbie Jones 'Gweithiwr

Proffesiynol Cynllun Cyfeirio i Ymarfer', yn bennaf i oedolion a phobl hŷn. Bu'n pwysleisio manteision gweithgarwch corfforol, lles iechyd, gwella cwsg, cynnal pwysau iach, rheoli straen a gwella ansawdd bywyd. Bu'n dangos i ni sut i fod yn egniol drwy redeg, gwneud chwaraeon, mynd i fyny ac i lawr y grisau yn gymedrol, a thrwy gerdded, seiclo a nofio. I gadw'r cyhyrau, yr esgryn a'r cymalau'n gryf dylid osgoi eistedd ar y soffâ yn gwylio teledu neu ar y cyfrifiadur. I fagu cryfder dylid ymweld â'r Gampfa neu ddosbarth Ioga ac i wella'r cydbwysedd, beth am ychydig o ddawnsio neu fowlio. Fe fwynhaodd pawb y sesiwn ymarferion gyda Debbie a phawb yn cytuno fod gwneud rhywbeth yn well na dim, gwneud ychydig i ddechrau a chynyddu'n raddol er mwyn lleihau y siawns o Diabetes 2, clefyd cardiofasgiwlar, syrthio, iselder, poen cefn, poen cymalau a chanserau. Dylem ddechrau HEDDIW, dydi hi byth yn rhy hwyr. 'Dechrau egniol, dyfodol egniol'.

Diolchwyd i Debbie gan Bethanne ac roedd ymateb yr aelodau i'r ymarferion yn werthfawrogol iawn. Diolch i Eirianwen, Linda a Haf am y baned ddisgwyliedig"

Ar Fawrth 13eg byddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda lluniaeth ysgafn a sgwrs gan Neville Hughes, Hogia Llandygai. Pawb i ddod â 2 blât, llwy, gwydr a diod eich hunain.



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833**

Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol

24 Awr y Dydd

Capel Gorffwys Preifat

Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch **ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)**

BETHEL

CRONFA CALONNAU BETHEL

Mae'r apêl arianol yn mynd o nerth i nerth gyda'r blychau casglu coch o wahanol fannau – rhai tu allan i Fethel - yn dychwelyd yn aml gyda chyfraniad teilwng iawn. Gwnaed elw o £420.50 yn y noson Caws a Gwin dan arweiniad Marcus Robinson. Cyhoeddwyd ar y noson hefyd fod Llion Roberts yn cyfrannu £200 at yr achos. Diolch iddo.

Daeth y diwrnod pwysig a chyflwynwyd y diffibrydd cyntaf mewn seremoni yn Ysgol Bethel. Roedd y wên ar wyneb Sioned yn adlewyrchu'r balchder o gyflawni'r freuddwyd, ac hefyd y balchder yn y gymuned yma ym Methel – a thu hwnt – i droi'r freuddwyd yn ffaith. Cafwyd cyhoeddiad hefyd fod ail ddiffibrydd wedi ei archebu. Braf sylwi hefyd fod pentrefi eraill yn yr ardal yn anelu i adlewyrchu'r ymdrech yma ym Methel. Ni ellir pwysleisio cyn gymaint y mae'r gwahanol weithgareddau wedi dod â phobl o bob oedran at eu gilydd. Fe leolir y diffibrydd ar fur allanol yr Ysgol Gynradd, ac ail beiriant i'w osod yn y Neuadd Goffa yn y dyfodol agos gobeithio.



Nick Aitken o Galonnau Cymru yn cyflwyno'r diffibrilwr cyntaf i'r ysgol.



Calonogol hefyd oedd y nifer a fynychodd y cwrs hyfforddi yn ymwneud â sut i ddefnyddio'r peiriant. Braf fuasai cael aelod o bob mudiad, cymdeithas neu sefydliad yn mynychu'r cwrs, ac yna trosglwyddo'r wybodaeth fel bod rhywun cymwys yn bresenol ym mhob cyfarfod pe buasai angen defnyddio'r peiriant.

DYMUNIADAU

Bu nifer yn y fro yn dioddef yn ystod y cyfnod diflas diweddar yma, gydag ambell un yn treulio cyfnod yn yr ysbyty. Danfonwn ein cofion atynt, gan ategu geiriau T. Rowland Hughes gobeithio, 'Mi wellaf pan ddaw'r Gwanwyn.' Mae ffrindiau Gwenda Hughes, Seion yn dymuno gwellhad iddi. Cafodd ei throsglwyddo o Ysbyty Gwynedd i Ysbyty Eryri yn ddiweddar. Yr un modd dymuniadau gorau i Seiriol a Vera Davies, Y Ddôl.

DATHLU GŴYL DDEWI

Yn ôl yr arfer ers sawl blwyddyn bellach gwahoddwyd aelodau Clwb Bro Bethel draw i'r ysgol yn westai gan y staff a'r disgyblion. Unwaith eto eleni cafwyd adloniant o'r radd flaenaf gan y disgyblion yn gymysgfa o lefaru, canu a hanes. Heddiw, (Mawrth 2il.) bydd dathliad yn y Neuadd Goffa. Yno, bydd Cinio Ysgafn ar gael. Bydd hefyd stondin deisennau, bwrdd gwerthu a raffl. Cynhelir y dathliad o 12pm – 2pm, a'r pris mynediad yw £3.

Rhennir yr elw rhwng Cronfa Calonau Bethel a Chronfa'r Neuadd Goffa. Diolch i Mary, Catrin a'r criw ffyddlon am gynnal y gweithgaredd blynyddol hyn bellach.

SÊT YN Y GALERI

Dyna fydd ei angen arnoch ar gyfer gwledd o gerddoriaeth i ddathlu Gŵyl Ddewi yn y Galeri ,nos Sadwrn, Mawrth 3ydd. Prif artistiaid y noson fydd y grwp Athena. Aelodau y grwp Athena yw'r tair gantores amryddawn Sioned Terry (Sioned Owen, Cefn Cynrig, Bethel), Gwawr Edwards ac Elen Williams. . Yn westai arbennig bydd y tenor Trystan Llyr. Mae tocynnau ar gyfer y noson i'w cael yn y Galeri.

RHODD ER COF

Mae pwyllgor Clwb Pêl-droed Ieuencid Bethel yn diolch o galon i deulu'r diweddar Maldwyn Hughes am y rhodd o £350 er cof am Maldwyn.

ER GWYBODAETH

Daeth dau gynhyrchiolydd o'r Bwrdd Dŵr draw i ymchwilio i sefyllfa effeithiau'r glaw trwm ddiweddar. Yn ystod y drafodaeth pwysleiswyd a chadarnhawyd dyletswyddau a chyfrifoldebau y gwahanol gyrff parthed problemau yn deillio o orlif neu law trwm. Dylsid cyfeirio at unrhyw broblem ynglyn a dŵr ar yr wyneb neu orlif oherwydd cau ffosydd i Gyngor Gwynedd. Os deillia'r broblem o orlif nant neu afon yna cyfeirir at Gyfoeth Naturiol Cymru. Os yw'r broblem yn deillio o greadigaeth unigolyn ar ei dir – e.e.-llyn/pwll /ffynnon gwneud, yna disgyn y cyfrifoldeb ar yr unigolyn/tir feddianwr.

Un datblygiad pwysig oedd cadarnhau bod rhaid i bob datblygwr bellach gynnwys 'attenuation chambers' yn y cynllun datblygu. Dull yw hyn o reoli llif y dŵr i'r brif bibell garthffos a ddylasai arbed unrhyw orlif.

Yn fwyaf pwysig, pwysleiswyd os oes unrhyw garthffos yn dyfod i'r wyneb o hyn ymlaen – fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol – yna rhaid nodi POB digwyddiad trwy gysylltu â'r Bwrdd Dŵr ar unwaith.

CROESO ADREF

Wedi cryn ddisgwyl mae Gwynfor Jones, Cenarth, wedi dychwelyd gartref wedi llawdriniaeth i gael clun newydd draw yn Ysbyty Gwynedd. Bydd tipyn mwy o 'gerddad 'rafon' y tymor nesaf yma mae'n siwr.

COLLEDION

Mae'r gaeaf hwn wedi dwyn cynhaeaf trwm o faes y fro. Ddiwedd Ionawr yn Ysbyty Gwynedd bu farw Olwen Jones, 14 Bro Rhos, yn 87 oed. Cydymdeimlwn a'i phlant Cerwyn ac Eirian yn eu colled a'u plant hwythau, o golli nain annwyl.

Wedi salwch bu farw Alwyn Williams, Bro Hedd, Seion yng Nghartref Cerrig yr Afon yn 90 oed. Danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Dewi ei fab.

Ganwyd Alwyn ym Methel ond wedi byw yn Seion am sawl blwyddyn. O golli Alwyn, fe'm hatgoffwyd o sawl noson ddifyr yn ei gwmni yng Nghlwb y Rhôs ym Methel sawl blwyddyn yn ôl bellach. Byddai Alwyn wrth ei fodd yn rhannu profiadau am ei ddau ddiddordeb mawr – hedfan a ffotograffiaeth. Roedd wrth ei fodd yn hedfan o faes awyr Mona. Yn aml, tynnai llyniau o'r awyr yn enwedig o'i hoff Landdeiniolen. Cofiaf iddo gynnal noson gwis un noson yn gofyn i'r aelodau adnabod mannau ym mro'r Eco o luniau dynnwyd o'r awyr. Tasg annodd, a chafwyd sawl 'Ia,siwr', pan ddatgelwyd y lleoliad. Mor wahanol fuasai'r darluniau o'r awyr o'r fro 30 mlynedd ers y noson honno. Bu Alwyn hefyd yn aelod uchel ei barch ar fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Bethel.

Parhad BETHEL eto...



DIOLCH

Derbyniwyd y llythyr canlynol gan Mark a Sian, Cae Clyd, Bethel.

“Dymuna Jennifer, Steven, Paul, Mark a’u teuluoedd ddiolch o galon i’r teulu estynedig, ffrindiau a chymdogion am bob cydymdeimlad, ymweliad a charedigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad, taid a hen daid annwyl, y diweddar Robat (Bob), Llys Menai, Saron. Diolch yn fawr am y llu cardiau a rhoddion. Casglwyd £1010 er cof am Robat, ac fe rennir yr arian rhwng Ward Aran, Ysbyty Gwynedd a Chronfa Meddygfa Waunfawr. Diolch arbennig i Dr. Huw Gwilym a Dr. Gwilym Sion Pritchard am eu gofal diflino. Diolch i Huw John Jones y trefnydd angladdau ac i’r Parch. Robert Townsend am eu gwaith graenus diwrnod yr angladd. Diolch hefyd i staff y Clwb Golf yng Nghaernarfon am drefnu’r lluniaeth wedi’r angladd.”

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Jennifer Roberts, Y Ddôl a’i phlant Aled a Ceri sy’n gyfarwyddwyr cwmni Delwedd. Fe enwebwyd y cwmni mewn – a chael y drydedd wobwr - mewn seremoni a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Roedd y seremoni yn cydnabod cyfraniad busnesau sy’n bodoli ac arloesi drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae sawl mudiad, cymdeithas ac yn wir yr Eco wedi elwa o gyfraniad proffesiynol Cwmni Delwedd dros y blyneddau.

ARWYDDION

Mae’r twf yn nifer y cerbydau ym mhentref Bethel wedi ei amlygu gan y problem parcio cynyddol. Un datblygiad pendant yw’r cynnydd yn y nifer bellach sy’n parcio oddiar y ffordd – boed ar y glaswellt neu’n fwyfwy ar y pafn. Arwydd pellach yw’r cyflwr truenus ar wyneb ambell i ffordd yn enwedig yng nghyffiniau Saron. Y mae’r dirywiad yn safon gwyneb y ffordd wedi ei drosglwyddo i sylw’r Cyngor Sir.

AIL GYCHWYN RECORDIO

Mae criw bach ohonnom o Fethel wedi ail gychwyn recordio cynnwys yr Eco ar gyfer y deillion, yn y stiwdio bwrpasol ym Mangor. Os hoffech ymuno â’r criw cysylltwch a mi (670115). Unwaith y mis am rhyw awr a chwarter yw’r gofyn fel arfer. Y mwyaf o griw gellir gweithio rota. Os ydych yn gwybod am rywun fuasai’n hoffi derbyn y cryno ddisg gellir cysylltu â Gwyn yng Nghanolfan y Deillion ym Mangor. (353604). Bydd y Ganolfan yn dosbarthu’r cryno ddisg yn rhad ac am ddim i’r derbynydd.

CERDDOROL

Bu’n noson hynod o lwyddianus i Yws Gwynedd, y canwr mabwysiedig o Fethel, a’i fand yn Noson Gwobrwyo Selar draw yn Aberystwyth. Ar y noson dyfarnwyd pedair gwobr i’r artistiaid talentog a phoblogaidd. Dyfarnwyd Tlws y Band Gorau a’r Record Hir Orau (Anrheoli) iddynt. Yna ar sail y gân Drwy Dy Lygid Di dyfarnwyd tlysau y Gân Orau a’r Fideo Orau. Yr un modd, llongyfarchiadau i’r grŵp Gwilym – yn cynnwys Rhys Grail o Fethel fel aelod – ar gipio tlws Band Newydd Gorau.

TORRI SYCHED

Mae’n ymddangos bod y gwaith o ddatblygu’r Bedol bellach wedi ei gwblhau. Gobeithio y ceir tenantiaid yno’n fuan. Yn sicr mae nifer yn colli mangre cymdeithasu a dal i fyny a ‘chlecs’ yr ardal.

‘NABOD BRO

Yn ol ei arfer cafwyd darlith raenus a diddorol gan Dafydd Whiteside Thomas yn y cyfarfod diweddaraf. Aeth a ni ar daith ar hyd Afon Rhythallt – hynny yw y rhan o Afon Seiont rhwng Llyn Padarn a Phont Cawia. Roedd y ddarlith yn gymysgedd o ddaearyddiaeth, geoleg, hanes, diwydiant, cymeriadau ac economeg y darn tir lleol yma. Gallem ond rhyfeddu at y gwahanol agweddau mewn darn cymharol bychan o dir. Yn y cyfarfod mis nesaf (Mawrth 20) caw neid diddanu gan Leisiau Llywarch dan arweiniad Ilid Anne Jones. Croeso i bawb.



NEWYDDION O’R YSGOL

Llongyfarchiadau i Brifathrawes, staff a phlant yr ysgol ar dderbyn dyfarniad ‘gwyrd’ yn yr asesiadau cenedlaethol yn ddiweddar. O gofio bod Ysgol Bethel, fel nifer o ysgolion eraill yn gweithio dan amodau o gwtogi ariannol llym mae hyn yn dweud cyfrolau am ymroddiad llawer i gyflawni addysg o safon i’r disgyblion.

Mor braf yw canmol llafur – y fyddin sy’n boddi dan bapur.

Os rhoi’r lle, er gwe o gur i’w hegin, gwyrdd ei blagur.

Bu aelodau Bl. 6 yn derbyn gwersi beicio a gofal ar y ffordd dan nawdd cynllun Sustrans Cymru yn ddiweddar. Mae hwn yn hyfforddiant pwysig o gofio’r cynnydd mewn trafndiaeth, y troeon peryglus yn y pentref a safon gwyneb rhai o’r strydoedd. Pwyll bia hi!

Mae rhai o’r disgyblion Bl. 3 – 6 yn mynychu sesiynau pêl-droed ar ôl oriau’r ysgol wedi eu trefnu gan G.P.D. Caernarfon.

CYNGERDD MAWREDDOG YSGOL BRYNREFAIL
gyda chyn-ddisgyblion, disgyblion presennol a disgyblion y dyfodol!

Nos Wener, 23 Mawrth 2018

NEUADD YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG

Arwel Jones
yn cyflwyno

Trio
Elfed Morgan Morris
Sioned Terry
Mei Emrys
Math Roberts
Côr Ysgol Brynrefail
Band Pres Ysgol Brynrefail
Disgyblion Ysgol Brynrefail
Côr Unedig Ysgolion Cynradd
Talgylich yr Ysgol

Drysau yn agor am 7:00pm /
Noson i ddechrau am 7:30pm

Pris Tocynnau:
Oedolion : £6 / Plant dan 16eg : £3

Tocynnau ar gael o Swyddfa Ysgol Brynrefail, Llanrug – 01286 672 381
Siop Na Nog, Caernarfon : Palas Print, Caernarfon

Bydd eile’r noson yn mynd i gronfa
Cyfeillion Ysgol Brynrefail
Dewch i gefnogi ac i feynhau talentau’r fro ar eu gorau.

Teyrnged i Deiniol Hughes

Ar Ionawr 20fed, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Deiniol Hughes. (Dun Dun i'w ffrindiau). Roedd o'n ŵr annwyl a thad direidus, brawd ac ewythr hwyliog ac yn ffrind triw. Gwasanaethwyd yr angladd yng Nghapel Caeathro gan y Parchedig Marcus Robinson a thraddododd y Ficer Eric Roberts y deyrnged a ysgrifennwyd gan ei ferch, Gwenno. Yr organyddes oedd Bethan Iwan.

Dyn ei deulu a'i bentref oedd Deiniol. Fe'i ganed yn Tŷ Mawr, Caeathro yn frawd i Meurig a'r diweddar Ifor Hughes – ac yno bu'n byw ar hyd ei oes. I Tŷ Mawr y daeth Marian, bob cam o Rhyd-y-Clafdy pan briododd y ddau 48 o flynyddoedd yn ôl a bu Tŷ Mawr yn gartref hapus iawn i Gwenno hefyd.

Roedd Deiniol wrth ei fodd gyda hen bentref bach Caeathro a fo fyddai'r cyntaf yn y ciw pan fyddai angen trefnu Carnifal, Gemau Giamocs neu'r Sioe Ardd a Thŷ a bu'n aelod o bwyllgor Cae Chwarae am flynyddoedd.

Un direidus oedd Deiniol. Roedd ganddo wên ar ei wyneb bob amser ac roedd yn ei elfen yn cael hwyl. Hwyl a'i denodd at Parti Eryri yn y 60au a bu'n crwydro ar hyd a lled Cymru yn perfformio mewn Nosweithiau Llawen am flynyddoedd. Yn aml iawn, dim ond sefyll ar y llwyfan fyddai angen i Deiniol ei wneud pan fyddai o'n perfformio mewn sgetsh a byddai pobl yn dechrau chwerthin, gyda Deiniol yn aml yn cael trafferth mawr i gadw wyneb strê. Nid y perfformio yn unig fyddai'n apelio at Deiniol pan fyddai o'n cynnal Nosweithiau Llawen. Roedd o'n enwog am ei fol, ac wrth ei fodd gyda'r "sbred" fyddai'n cael ei ddarparu gan drefnwyr y Nosweithiau Llawen wedi'r perfformiad. Cymaint oedd hoffter Deiniol o'i fol fel y medrai ddweud wrthyhych ym mha neuadd bentref y cafodd o'r bara brith neu'r sosej rôl orau o 1960 ymlaen!

Roedd Deiniol yn dipyn o arddwr hefyd ac wrth ei fodd yn hela gyda hogia Caeathro. Roedd o'n adnabod caeau Caeathro fel cefn ei law ond nid dim ond byd natur a'r Awyr Iach fyddai'n mynd â'i fryd. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn chwarae snwcer a phŵl hefyd ac roedd o wrth ei fodd yn crwydro – o Ganada i Koh Samui – ac roedd o'n joio busnesu sut roedd pobl o gwmpas y byd yn byw.

Ond er yr holl ddiereidi a'r hwyl, roedd yna ochr ddwys iddo. Roedd ganddo Ffydd gref a bu'n swyddog yng Nghapel Caeathro am flynyddoedd. Roedd o'n credu mewn trin pobl fel yr hoffech gael eich trin eich hun ac yn un caredig a chariadus. Bydd yn gadael bwlch enfawr ar ei ôl.

Mae Marian a Gwenno yn ddiolchgar iawn i'w holl deulu, ffrindiau a meddygon Waunfawr am y gefnogaeth, y caredigrwydd a'r cynhesrwydd a gawsant yn sgil colli Deiniol ac mae'r holl ymweliadau, galwadau ffôn a chardiau a gawsant wedi bod yn gysur mawr. Maent yn ddiolchgar iawn am y cyfraniadau hael a wnaethpwyd i'r gronfa Er Cof am Deiniol hefyd a chaiff yr arian a dderbyniwyd ei rannu rhwng Meddygfa Waunfawr a Chapel Caeathro.

Cafodd Deiniol ei roi i orffwys ym mynwent Caeathro ar Ionawr y 30ain, a byddwn yn edrych yn ôl ar ei fywyd yn ddiolchgar a gyda gwên.

Gwenno Hughes

Gwasanaethau y Capel

Mawrth 4 am 2 o'r gloch gwasanaethir gan y Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson, ac i ddilyn am 3.00 cynhelir Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod Swyddogion y Capel.

Mawrth 18 am 2.00 gwasanaethir gan y Parch Dafydd Hughes, Caernarfon.

Huw Ceiriog fydd llywydd y mis, gyda Iona Ceiriog yn organyddes.

Gwellhad Dymunwn yn dda i Aled (Lodge), Bryn Gof, sydd yn Ysbyty Gwynedd, ac i unrhyw un arall o'r pentref sydd yn wael. Brysied y gwanwyn!

Tynfa mis Chwefror

1af (4) £40: M.W. Williams, Cae Philip; 2il (71) £25: Clive James; 3ydd (74) £15: Mark Bee, 4 Bryn Gof; 4ydd (68) £5: Richard Jones, Ger y Tŵr. Diolch am bob cefnogaeth i'r Gymdeithas Cae Chwarae.

CWMYGLO

Gwellhad Buan Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad llwyr a buan i Karrah Williams, merch Nigel Williams, Aran, a'r plant a fu mewn damwain ffordd yn ddiweddar, hefyd i Kerry Jones, 13 Dôl Afon, ar ôl disgyn a thorri ei ffêr.

Adref o'r Ysbyty Croeso adref i Mrs Audrey McEllen, Bryn Awelon, Allt Goch, wedi bod am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac yna Ysbyty Eryri, Caernarfon.

Cydymdeimlad Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth sydyn Mr Huw Owen, Bwthyn Cae Howell, Penisarwaun, tra ar ei wyliau dramor. Bu Huw a'r teulu yn hynod gymwynasgar ac yn barod bob amser i gefnogi gweithgareddau'r pentref tra yn cadw'r Fricsan. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w briod, Mrs June Owen, y plant, Dilys, Elspeth, Huw, Mari a Kevin a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.


Diwyllio/Dofi/Diwygio

Deg o bethau ddofodd fywyd
pan ddiwylliwyd hwy o'r cynfyd...

Bu y ci i ni'n gwmpeini,
daeth yr yd i'n cylla'i lenwi.
Daeth y fuwch a'i chig a'i llefrith
pwy all ddadla' hyn o fendith?
India corn a'r had cynhyrchiol
Tatws, rhan o hanes pobol!
Daeth yr iâr – a'i bendith dwbl
daeth y reis o wledydd trwbwl.
Yna'r march – mor chwim i gario
cad o filwyr – gwlad i'w choncro!
Cain yn nwf'n pocedi'r oesoedd
'fala melys, sail i'n gwinoedd...
Olaf un o'r deg dylanwad
dyn ei hun drwy wyrth esblygiad!

*Efallai dylai'r awdur wedi rhoi hyn yn gyntaf?

Norman Closs



GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfa Mill, Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

CARPEDI
TEILS
VINYLS

DEWIS MAWR
O BATRYMAU

Sefydliad y Merched Yng Nghyfarfod Chwefror o'r gangen leol croesawodd y llywydd, Pat Jones, y Therapydd Maethyddol Pat Mowll i roi sgwrs i'r aelodau. Rhannodd wybodaeth ac egluro sut i fwyta'n ddoeth ac iach. Dangoswyd sleidiau o wahanol fwydydd iachus a'u heffaith ar y corff. Yn dilyn cafwyd sgysiau diddorol ymhlith yr aelodau ar y testun a chael atebion i

nifer o gwestiynau perthnasol. Diolchwyd i'r gwestai gan Carol Houston am sgwrs lesol a manteisiol a deunydd buddiol i'w ystyried i'r dyfodol.

PROFEDIGAETH

Y ddiweddar Jennie Angharad Roberts Trist yw cofnodi ymadawiad Jennie Angharad Roberts, gynt o 2 Ffrwd Madog, a fu farw ar Chwefror 10fed ym Mhlas Pengwaith yn

90 mlwydd oed. Dyma golli blaenor arall yn yr Eglwys o fewn ychydig wythnosau, un a fu a'i hymlyniad â'r Eglwys ym Mrynrefail yn neilltuol ers ei dyddiau cynnar.

Bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel y Rhos ac yn dilyn ym Mynwent Santes Helen Penisarwaun ar Chwefror 19eg. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson. Ar

ran yr Eglwys darllenwyd o'r Ysgrhythur gan Gwyn Hefin Jones a thalwyd y Deyrnged gan Lowri Prys Roberts gyda chyfraniad gan y gweinidog a Simon Nixon, ei mab yng nghyfraith.

Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â'i dwy ferch, Eleri a Bethan, ei chwaer Eileen a'u teuluoedd oll yn eu profedigaeth.

Crynodeb o'r DEYRNGED ddydd yr angladd

Merch bum mlwydd oedd Jennie Angharad Roberts pan symudodd y teulu i Frynrefail o ardal Cwmyglo i fwthyn Pen Clegir uwchlaw y pentref. Roedd yn un o bedwar brawd a chwech o chwiorydd. Symudodd y teulu yn ddiweddarach i 1 Tai Orwig. Yn 1954 bu iddi briodi â William Meirion Roberts, fferm Bryn Derw, a chartrefu yno, lle y ganwyd iddynt ddwy ferch, Eleri a Bethan. Yn fuan iawn, torrodd iechyd ei phriod i lawr a symudodd y teulu i Glandŵr. Gadawyd Jennie yn weddw yn 1961 a'r genethod yn ieuanc iawn. Ymroddodd o ganlyniad i sicrhau dyfodol iddynt drwy weithio'n gydwybodol gydol y blynyddoedd. Bu ei ffyddlondeb hwythau iddi hithau gydol ei hoes faith yn deyrnged i'r fagwraeth a gawsant.

Bu ei chyfraniad i'r gymdeithas ym Mrynrefail yn un sylweddol iawn a'i gofal am ei theulu, ei ffrindiau a'i chymdogion yn fawr. Nodwedd amlwg yn ei chymeriad oedd ei charedigrwydd a'i haelioni. Rhannai ei chynnyrch cartref, rhoddion lu a'i chymwynasau yn ddibendraw ar bob achlysur ym mywydau pobl a phlant. Roedd hyn yn rhan naturiol o'i ffordd o fyw.

Bu rhan fwyaf o'r blynyddoedd dreuliodd yn ystod pum mlynedd ar hugain olaf ei bywyd yn brwydro yn erbyn llawer o boen corfforol dirfawr ond doedd hynny ddim yn sefyll yn ei ffordd i ddyfalbarhau. Cafodd fyw i oedran anhygoel yn wyneb hyn. Roedd ei gwytnwch, ei phersonoliaeth bositif, ei ffydd a'i chred i gyfrif llawer am hynny. O ganlyniad, yn 1992 bu iddi symud i 2 Ffrwd Madog. Yn y cyfnod olaf hwn yn ei bywyd pan dderbyniai ambell gymwynas, roedd yn mynnu cydnabod hynny yn anrhydeddus a doedd waeth dadlau wrth geisio gwrthod derbyn unrhyw rodd.

Uwchlaw popeth, bu ei ffyddlondeb a'i chyfraniad i'r Eglwys ym Mrynrefail yn un arbennig iawn. Cafodd ei magu o'r cychwyn ar aelwyd hynod grefyddol lle'r oedd disgyblaeth lem ynglŷn â mynychu'r capel ar y Sul a chyfarfodydd canol wythnos.

A dyna fu hanes Jennie ar hyd ei hoes nes ei goddiweddyd gan lesgedd yn yr ychydig flynyddoedd olaf. Cafodd ei chodi yn flaenor yn 1987 a bu ei chyfraniad i'r Set Fawr yn amlochrog iawn – yn cymryd rhan yn gyhoeddus, yn ymweld â'r claf ac yn ysgogwr penigamp. Roedd yn cofio am bopeth yn y calendr

eglwysig ac yn dyfalbarhau i'r eithaf nes roedd materion yn cael eu cyflawni.

Roedd yn ymfrydu ym mhopeth ynglŷn â'r cysegr. Roedd addoli ar y Sabbath a'r Ysgol Sul ar ben y rhestr yn ei bywyd ac yn troi allan yn barchus ei hymarweddiad gyda phrydlondeb a threfnusrwydd. Er cael gwahoddiad i dreulio penwythnosau gwyliau fel y Pasg gyda'i merch Eleri yn Llanelwy, rhaid oedd cael dychwelyd adref yn brydlon ar y Sul ar gyfer yr oedfa gymun hwyrol ym Mrynrefail. A ninnau mewn oes o lesgedd ysbrydol y tu allan i'r eglwys ac ar brydiau yn gwegian y tu mewn, mae cofio am Jennie yn fodd i ni geisio dal gafael yn yr awenau a rhoi heibio y dewisiadau rhwydd mewn bywyd sy'n ein temtio yn aml.

Bu'n teithio yn eang yn ystod ei bywyd ond o'r holl wyliau tramor dreuliodd roedd yr ymweliad ag Israel yn rhagori ar y cyfan.

Tipyn o chwalfa yn 2005 oedd dod â'r addoli i ben yn adeilad y Capel, yn arbennig i'r aelodau hynny o genhedlaeth Jennie. Roedd nifer o opsiynau i'r gynulleidfa ond yr unig un realistig oedd cael ystafell addoli yn y Caban a chael aros yn ein cynefin a doedd neb yn dymuno hynny yn fwy na Jennie. Diolch ei bod, o ganlyniad, wedi cael treulio blynyddoedd diwedd oes o addoli mor gartrefol a bendithiol.

Yn ddiweddarach bu rhaid dygymod â'r sedd wag yn yr addoliad a'r cartref gwag yn Ffrwd Madog, ond bu'r flwyddyn olaf yn ei bywyd, lle derbyniodd ofal yng Nghartrefi Cerrig yr Afon a Phlas Pengwaith, yn dal i'n cysylltu â hi. Er y llesgedd corfforol, roedd ei meddwl yn hynod braff a'i chof yn eithriadol i'r diwedd.

Daeth pennod hir i ben a'r bwllch nawr yn derfynol ac amlwg iawn. Ni allwn ond diolch i'r Hollalluog Ei fod wedi ein bendithio â'i chwmni nes cyrraedd oedran rhyfeddol a thrysori yr hyn a gyfrannodd i'n bywydau oll. Boed iddi orffwys mewn hedd a boed i'w choffadwriaeth fod yn dragwyddol.

L.P Roberts



**Gwasanaeth Gwres
a Plymio**

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Oedfaon Mawrth am 5 yr hwyr

4: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

11: Parch Gwenda Richards, Caernarfon

18: Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni

25 Canon Idris Thomas, Deiniolen



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com



29 June 1910

—The Caerffynnon Mill—

Melin Caerffynnon, Clwt y Bont


Cysylltodd Howyn Williams (Deiniolen gynt) gyda chyfeiriadau at y felin hon yng Nghlwt y Bont, a diolch iddo am ymateb mor sydyn. Mae'r llun yn un o gyfres o luniau a dynnwyd ar 29ain o Fehefin 1910, ond does wybod os oes arwyddocad i'r dyddiad na phwy oedd yn gyfrifol am dynnu'r lluniau. Mae'r lluniau eraill yn dangos Melin Glandinorwig (sef Melin Sam ar lafar), Melin Deiniolen (Ystafell y Band bellach) a rhai o'r tai yn gysylltiedig â'r melinau. Roedd Melin Caerffynnon wedi ei lleoli rhwng y ddwy felin arall, a phob un ohonynt yn defnyddio dwr o afon Caledffrwd. Melinau yn cynhyrchu llechi ysgrifennu ar gyfer ysgolion oedd y tair.

Prin yw'r wybodaeth am Felin Caerffynnon. Deuthum ar draws y cyfeiriad cynharaf ati yn 1887, ond mae'n amlwg ei bod yn bodoli cyn hyn, o bosib ers 1871. Ym mis Ionawr 1887 roedd hysbyseb yn y papurau wythnosol yn nodi fod y felin yn cael ei gwerthu mewn ocsiwn ar y 15fed o'r mis – “os na werthir hi'n breifat cyn hynny.” Yn ôl yr hysbyseb roedd “mewn cyflwr gweithio rhagorol”. Nodir hefyd fod prydles arni am 30 mlynedd, yn dyddio o'r 12fed o Fai 1871. Yn ychwanegol i'r felin roedd cyfranddaliadau mewn dau gwmni llongau i'w gwerthu yn yr ocsiwn hefyd. Roedd 60 o gyfranddaliadau gwerth £10 yr un yng nghwmni Moel Eilian Shipping Co. Ltd, a 25 cyfranddaliad gwerth £20 yr un yn y Gwynedd Shipping Co. Ltd. Roedd y rhain dros y saith mlynedd diwethaf wedi talu £8-16-6 y cant yn flynyddol. Roedd y cyfranddaliadau hyn yn cael eu cynnig yn yr ocsiwn ar wahan i'r felin.

Mae'n ymddangos mai methiant fu'r ocsiwn – er fod y cyfranddaliadau yn y cwmnïau llongau, o bosib, wedi eu gwerthu, oherwydd ym mis Chwefror mae'r felin yn cael ei chynnig ar werth eto, sef gwerthiant preifat. Methais a chael gwybodaeth i gadarnhau a fu'r gwerthiant preifat yn llwyddiannus.

Pwy felly oedd y perchnogion, a pham gwerthu? Daw'r ateb ym mis Medi 1887 pan gyhoeddir fod John a Henry Owen, y perchnogion, yn fethdalwyr, gyda dyled o £669-12-4, ac mai dim ond £124-8-0 oedd ganddynt mewn llaw. Adroddwyd mai canlyniad i dân yn y felin a dirwasgiad yn y fasnach llechi oedd yn gyfrifol. Ond roedd y ddau yn berchnogion ar Felin Glanadda, Bangor hefyd; melin arall yn cynhyrchu llechi ysgrifennu, ac nid yw'n amlwg o'r adroddiad pa un o'u dwy melin aeth ar dân. Bu'n rhaid disgwyl tan fis Mawrth 1888 i gael yr ateb. Dyna pryd y cafodd achos y methdaliad ei ddirwyn i ben. Yn yr adroddiad hwnnw dywedir mai tad a mab oedd John a Henry Owen, ac iddynt gychwyn y fenter gyda dim ond £100 o eiddo'r mab. Yn yr adroddiad hwn hefyd y cawn wybod mai Melin Glanadda a ddioddefodd o'r tân – ac nad oedd yswiriant ganddynt ar yr adeilad na'i gynnwys. Dirwasgiad yn y fasnach llechi oedd yr achos dros werthu Caerffynnon, ond mae'n bosib fod cystadleuaeth yn rhannol gyfrifol hefyd, gyda tair melin mor agos i'w gilydd yn gwneud yr un gwaith, a Melin Glandinorwig yn hynod lwyddiannus.

A werthwyd y felin, ac a gafodd ei gweithio wedyn? Anodd gwybod, ond ym mis Ionawr 1906, bron i ugain mlynedd yn ddiweddarach, roedd y tair melin ar werth; pob un yn felinau llechi ysgrifennu, a phob un yn cynnwys peiriannau gwerthfawr. Yn ychwanegol i'r melinau roedd tŷ a gardd Glandinorwig ar werth a dau fwthyn gweithwyr. O edrych ar y llun, mae'n ymddangos mai perthyn i felin Caerffynnon roedd y ddau fwthyn. Ond pwy oedd yn gwerthu y tro hwn? Syndod braidd oedd deall mai Cyngor Dosbarth Trefol Llandudno oedd y perchnogion! Bydd angen mwy o waith chwilota i ddarganfod pryd y daeth y cyngor hwn yn berchnogion y tair melin, a beth ddigwyddodd iddynt ar ôl 1906, a pham y tynnwyd lluniau'r cyfan yn 1910 – os nad oes rhai ohonoch chi ddarllenwyr yn gwybod.



Mwy o Hen Gerbydau

Coeliwch neu beidio, ond fe ymddangosodd y llun hwn yn yr “Eco” bron i ddeugain mlynedd yn ôl, yn rhifyn Ebrill 1978. Mae hwn yn un o’r bysus cynharaf i deithio ar hyd lonydd y fro, a hynny yn ystod 20’au y ganrif ddiwethaf. Yn ffodus, mae’r rhif cofrestru yn ddigon eglur – CC 2594, ac felly roedd gobaith fod rhywfaint o ddogfennau ar gadw i roi mwy o wybodaeth amdano. Daimler a gofrestrwyd gyntaf yn 1916 yw’r bws hwn, gyda lle i 32 o bobl eistedd ynddo. Roedd ei injan yn 30 h.p. a’r cerbyd yn pwysu 4 tonnelli; dipyn o bwysau i’w gario i fyny’r gelltydd o Gaernarfon am ddyffryn Peris, yn enwedig o gofio ei fod yn aml yn cario llawer mwy na 32 o bobl!

Does dim sicrwydd pwy oedd y perchennog cyntaf. Mae’r dogfennau yn dyddio o 1923. Yn y flwyddyn honno gwerthwyd y bws gan John Evans, Lleiod, Caernarfon i Jones Brothers, Llanrug. Dyna’r enw ar y dogfennau cynharaf, ond mae’n newid i Peris Motors yn ddiweddarach. Evan Griffith Jones, Cae Rhos,

Llanrug sy’n arwyddo’r drwydded, ond weithiau, mae ei frawd John P. Jones yn arwyddo. Y ddau hyn oedd Jones Brothers. Anghyflawn yw’r ddogfennaeth, ond mae’n ymddangos mai ‘creamy chocolate’ oedd lliw gwreiddiol y bws, ond iddo yn ystod y 20’au gael ei newid i ‘maroon’. Efallai i’r lliw gael ei newid pan brynwyd ef yn 1923. Tybed pwy fu’n gyfrifol am y peintio? A beth ddigwyddodd i’r bws ar ddiwedd ei oes? Prynwyd cwmni Peris Motors gan Gwmni Crosville ym mis Hydref 1928. Felly am 5 mlynedd yn unig y bu’n cario teithwyr y fro dan enw Peris Motors. Does wybod a gafodd y bws fywyd newydd (a chôt newydd o baent gwyrdd) gyda Chwmni Crosville.

Mae hynt a helynt teithiau rhai o’r Peris Motors wedi eu hadrodd yn yr “Eco” gan Arwel Jones, Penisarwaun, a chafwyd mwy o hanes bysus bach y wlad gan y diweddar Robert Williams, Llanrug yn rhai o rifynnau cynnar y papur.

Cigydd Ebeneser/Deiniolen...

Daeth dwy alwad ffôn ar yr union ddiwrnod y daeth y rhifyn diwethaf o’r wasg – cyn i lawer ohonoch dderbyn eich copi misol, rwy’n siwr. Diolch i Nan Owen, Llanberis a John Maldwyn Jones, Bethel am ymateb mor hynod o gyflym. O fewn diwrnod roedd Norah O’Brien, Penrhos (Penisarwaun gynt) wedi cysylltu hefyd, a’r tri ohonynt yn rhoi gwybodaeth am y cigydd a’r siop. Ac y mae’r llun gwreiddiol ym meddiant Norah. Yna’n ddiweddarach, daeth nodiadau gan Marian Jones, Dinorwig, oedd yn cofio Morris Jones fel “gwr hoffus a gwallt claer wyn”. Roedd fferm Ty Newydd, Dinorwig (cartref Marian) yn cadw moch, a phan fyddai’n amser eu lladd, byddai Morris Jones wastad yn prynu un ohonynt.

Cefais wybodaeth am y teulu gan bob un o’r rhai wnaeth ymateb, ond gan fod eu disgynyddion yn byw yn y fro heddiw, wnai ddim cyhoeddi enwau nes byddant wedi cysylltu. Ond roedd yn bosib lleoli’r siop. Safai Waen Goch ar Stryd Fawr Ebeneser/Deiniolen, ond mae bellach wedi ei dymchwel, sef y gwagle sy’n arwain at faes parcio y llyfrgell gynt.

Treialon Cwn Defaid Betws Garmon.....

Mae’r treialon hyn yn bodoli ers dros ganrif, ond tra’n chwilio am wybodaeth yn ddiweddar am hanes gwaith haearn yr ardal, deuthum ar draws cyfeiriad at dlws yn y treialon, sef Cwpan Jacobus Spyker Amsterdam. Roedd wedi ei chyflwyno yn ystod y 1910’au, a’r dyddiad olaf oedd 1919. Fe wn pwy oedd Jacobus Spyker, ond tybed ydi’r cwpan yn dal mewn bodolaeth?

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro’r “Eco”, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com



'R holl gyffroadau. Erbyn hyn, ai tameidiau ar ffurf sbwriel yn y cof ydynt; rhyw bethau sydd ar adegau'n unig yn cael eu tyrchu i'r golwg, a hynny pan fo'r meddwl yn ei ganiatau? Beth oeddynt? Yn sicr, mi roeddynt yn rhannau annatod ohonof, ran bod yn ly'gid, clustia', ffroena', a'r cyfle byw i ddal cymundeb efo byd Natur. Y mae'n debyg nad oes rhyw lawer iawn wedi newid ers dyddiau fy mhlethentod, pryd roeddwn efo fy mhen yn y gwrychoedd, a'm traed o'm lledol yn ymysgwyd, gan wybod hyd sicrwydd ceid yno ddail, adar, blodau, creaduriaid a phryfed! 'R nig beth ydy bod yr hyn a geisias ei ddweud bellach yno'n barod! Ie! ar ffurf blynyddoedd, wedi eu caethiwo a'u fferru am byth, mewn cadw mi gei o ddyddiaduron, a chofnodion dirif sy'n ymwneud â chynefinoedd.

Mi fues i'n rhyw feddwl gollwng gafael arni, rhoi gorau iddi am byth, efo'r holl fusnas yma o gadw dyddiaduron sy'n ymwneud â byd Natur. Ni wnes i hynny! Gormod o fwyniant, ond yn anad dim byd arall, gweld fod pob diwrnod yn rhyfeddol o newydd, ac yn llawn rhyfeddodau.

Drudwy? Y mis hwn, dyma'r adar sy'n cael rhywfaint o'n sylw. Dyma ddechrau efo bore dydd Mawrth, Rhagfyr 6ed (2005) a chyfrif pum drudwen ymhlith yr ieir ar y lleindir ger buarth y fferm, a'r cyfan yn pigo'r pridd. Daw'r cofnod nesaf o'r flwyddyn 2010. Ie, dydd Sadwrn, Hydref 16eg am 14.32

ar groesffordd o bob man, rhwng pentra Bethel a'r Felinheli, gweld yn sefyllian ar wifren drydan oddeutu dri dwsin ar y mwyaf o'r adar drudwy/drudws. Y flwyddyn ddilynol, h.y. Mawrth 15fed am 10.40 y bore, drudwy, adar yr eira, adar Branwen yno'n clebran, wedi heidio'n griw llwglyd i gae hanner ffordd i lawr y lôn goed ger fferm Neuadd Glasgoed, Penisarwaun. Codent ar adain ac anelu dros y coed, draw i gyfeiriad Seion a Nant y Garth. Yna, dydd Mercher, Ionawr 11eg 2012, hynny am 11.55 y bore, dyma ddigwydd taro ar ddrudwen unig ar frigyn coeden ger y blwch llythyrau sydd yn eiddo'r fferm a enwyd uchod. Yna, dydd Llun, Hydref 30ain 2017 am 8.05 ym Mhenymwnt, Penrhosgarnedd, gwelais ddrudwy yn codi'n gwmwl o'r cae wrth ymyl y lôn bost, troelli'n yr awyr cyn hedfan o'm golwg tuag at Felinheli.

Ydyw! mae hi'n saith mlynedd ers gweld drudwy yma yng Nglasgoed. A olyga hyn i gyd bod llai o fwyd iddynt, ran pryfed, yn y caeau? Digon gwir, ceir yma frain a phiod sy'n cael llond eu gwala tra'n hela am gynrhon, pryfed genwair a ballu. Ond cadw draw a wna'r drudwy. Pam ys gwn i? Ai bod mewn manau o'u dewis ddigonedd o fwyd ar gael, a'i bod hi hefyd erbyn hyn yn gynhesach yr adeg yma o'r flwyddyn nag ydoedd hi yn y flwyddyn 2005, sy'n golygu nad oes reidrwydd arnynt i deithio ymhell, hyd yn oed i Lasgoed! er mwyn taro ar fwyd? Beth ydyw eich barn chwi ar yr holl fater? Pryd welsoch chwi adar yr eira ddiwethaf?

Cefnogi'r Wiwerod Coch



Yllynedd daeth y newyddion da fod y wiwer goch wedi dychwelyd i'r fro, ac wedi cartrefu yng Nghoed Fictoria, Llanberis. Ond bregus iawn yw cyflwr y rhywogaeth frodorol, yn enwedig o gofio fod cryn ofnau wedi bod yn ddiweddar o ganlyniad i feirws oedd yn ymosod arnynt.

Ar ddydd Gwener, 16eg o Fawrth yn yr Hostel Ieuenctid yn Llwyn Celyn, Llanberis, bydd cwrs undydd yn cael ei gynnal ar gyfer unrhyw un sydd a diddordeb yng nghadwraeth y wiwer goch a/neu reoli'r wiwer lwyd. Bydd y sesiwn yn cychwyn am 10.00 y bore dan arweiniad Dr Craig Shuttleworth a Holly Peek yn rhoi cyflwyniad i'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud. Yna, yn y pnawn bydd sesiynnau ymarferol – unai ar gadwraeth y wiwer goch neu ar reoli'r wiwer lwyd.

I'r rhai sydd a diddordeb, rhaid llogi lle ar y diwrnod. Cysylltwch a hollyredsquirrel@gmail.com neu ffoniwch 07397953543.



© Paul Rogers



Gŵyl Delynau Ryngwladol Cymru



Cynhelir Gŵyl Delynau Ryngwladol Cymru rhwng 1af a'r 7fed Ebrill 2018 yn Galeri Caernarfon. Bydd yn ddathliad pen-blwydd y telynor Cymreig eiconig, Osian Ellis yn 90 oed a'i gyfraniad gwych i gerddoriaeth dros gyfnod o 70 mlynedd. Elinor Bennett yw Cyfarwyddwraig yr Ŵyl, a gyda chefnogaeth y Trefnydd Catrin Morris Jones mae'r ddwy wedi bod yn gweithio'n galed i lunio rhaglen llawn dop o weithgareddau gyda rhywbeth at ddant pawb, yn gyngherddau gan artistiaid byd enwog, cystadlaethau, gwersi hwyliog i ddechreuwyr, dosbarthiadau meistr, arddangosfeydd telynau a llawer mwy! Ewch i wefan yr Ŵyl am raglen lawn www.gwyltelyncymru.co.uk

Bydd telynorion o bob cwr o'r byd yn dod i Gaernarfon i ymuno yn y dathliadau. Os hoffech gymryd rhan fel gwirfoddolwr, byddai Catrin Morris Jones yn falch iawn o glywed gennych. Cysylltwch â hi i drafod posibiladau ar catrin@gwyltelyncymru.co.uk neu drwy ffonio swyddfa Canolfan Gerdd William Mathias 01286 685 230.

Llythyr o Awstralia

Dosbarthiadau Cymraeg Melbourne

Neithiwr, oedd noson gyntaf y flwyddyn i'n dosbarthiadau ym Melbourne. Fel arfer oedd yn noson ysbrydoliaeth. Felly, o'n i moyn rhannu tipyn bach o ein hanes ni. Dechreuais i ddysgu Cymraeg tua deuddeg blynedd yn ôl. Faleiry, oedd fy athrawes i. Daeth hi o Geredigion yn wreiddiol. Ar ôl priodi, symudodd hi i Awstralia gyda'i gwr. Doedd na ddim llawer o gyfleoedd i siarad Cymraeg yn y dyddiau yna. Hyd yn oed oedd ffonio adref yn ddrud iawn. Nid fel y dyddiau 'ma tra bod Skype wedi gwneud y holl bell yn haws. Oedd ei Chymraeg hi yn eithaf rhydlyd, dwedodd Faleiry, tan oedd hi'n gofyn i helpu gyda dosbarthiadau Cymraeg Melbourne. Wedyn daeth popeth yn ôl iddi hi. Mae hi wedi bod yn diwtor Cymraeg dros ugain mlynedd nawr.

Ond, pam ydy pobl yn dysgu Cymraeg ym Melbourne? Cwestiwn da. Bob blwyddyn ar noson gyntaf y tymor, dy'n ni'n eistedd mewn cylch gyda'r aelodau hyn a'r dechreuwyr ac yn cyflwyno ein hunan. Pobl yn siarad am dyfu lan

yng Nghymru a chlywed yr iaith Gymraeg pan o'n nhw'n ifanc, cyn symud i Awstralia. Mae rhai pobl yn cofio ei mam-gu yn siarad Cymraeg yn Awstralia. Mae rhai pobl wedi priodi rhywun o Gymru. Mae rhai wedi gweithio yng Nghymru rhywbryd yn ystod eu bywydau. Dyw rhai pobl ddim yn gwybod pam maen nhw'n dysgu Cymraeg. Ond dyma ni, neithiwr, tua pymtheg ohonom ni, oedd wedi ein gyrru gan hiraeth a phrydferthwch yr hen iaith.

Pan ddechreuais i ddysgu Cymraeg, roedd y grwpiau dysgwyr yn defnyddio'r cwrs BBC Catchphrase. Nawr, maen nhw'n defnyddio cymysgedd o gyrsiau. Ond, am sawl blwyddyn nawr, dw i wedi bod y tiwtor y dechreuwyr, felly, dyn ni wedi bod yn defnyddio y cwrs ar lein Say Something in Welsh. Pam? Achos mae'n gwrw gwyh! Heb SSiW, alla i ddim siarad Cymraeg. Wir yr! Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am wrando ar y podlediadau SSiW yn eu hamser eu hunan. Wedyn, bob wythnos, gyda chardiau flach, a jig-sos, a'r geiriadur lliwgar, dwi'n rhoi

iddyn nhw gyfleoedd i ymarfer y patrymau maen nhw wedi bod yn dysgu ar y podlediadau.

Does dim llawer o diwtoriaid gyda ni (dyn ni i gyd yn wirfoddolwyr), felly dyn ni ddim yn gallu cynnig mwy na tri lefel i ddysgwyr bob blwyddyn. Felly ar ôl un flwyddyn gyda fi a SSiW mae'r dysgwyr yn graddio at lefel Sylfaen. Dyn ni wedi dechrau defnyddio'r WJEC cwrs gyda'r grŵp yma. Daw'r tiwtor Rob o Lundain yn wreiddiol. Dysgodd e Gymraeg yn y brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan. Mae fe'n athro go iawn yn ei swydd ddyddiol, felly dy'n ni'n lwcus iawn ei fod e'n fodlon i deithio milltiroedd ar y trên bob wythnos jyst i helpu pobl dysgu Cymraeg.

Mae gyda ni ddau diwtor arall, heb law Faleiry. Aled o Twickenham, oedd tyfu lan yn Llundain gyda Chymraeg fel mamiaith ac Anna o ar bwys Wrecsam oedd wedi priodi Awstraliad. Achos dy'n ni i gyd yn brysur, dy'n ni'n gweithio fel tim tag – pan mae'r llall yn mynd bant i astudio, neu ymweld a Chymru, neu jyst tra



bod eu bywyd nhw yn brysur. Y flwyddyn yma, bydd Aled yn gweithio gyda dau ddysgwr sy'n barod i loywi eu hiaith Cymraeg. Un dysgwr, Karla, yn symud i Gymru am ddwy flwyddyn ac mae hi'n gobeithio gweithio trwy'r cyfrwng Cymraeg. Y llall, Jason, wedi helpu mas fel tiwtor ar sawl adeg. Mae'r ddau ohonyn nhw wedi dysgu Cymraeg trwy SSiW. Mae'r ddau ohonyn nhw'n siaradwyr hyderus. Felly, os bydd y Llywodraeth Cymru yn ymdrechu creu miliwn siaradwr Cymraeg, paid a beco. Dyn ni'n helpu mas, yma, yn Awstralia.

Liz Corbett.

Atebion Cystadleuaeth Hen Luniau



1.Ysgol Bethel sydd yn y cefndir. Tynnwyd y llun ar y lon sydd eisioes rhwng stadau tai Cremlyn a Bro Rhos.



2.Yr hen temperance yn Llanberis. Yr adeilad drws nesaf i siop 'One Stop' y pentref heddiw.



3.Ysgol a Ty Ysgol Dinorwic yn y cefndir. Tynnwyd y llun yn ystod diwrnod chwaraeon y pentref yn y 1950au.



4.Tai'r Felin, Brynrefail.



5.Y Commercial yn Penisarwaun sydd tu ol i'r ceffyl. Nid enw'r ceffyl oedd angen!!!!



6. Ar y ffordd allan o Pentre Castell, Llanberis i gyfeiriad Nant Peris.



7.Adeiladu Garej Cwm y Glo.



8. Hen lun o Garej Rhiwen yn Deiniolen. Festri Capel Eban sydd yn y cefndir

Yr enillydd oedd Edith Thomas o Ddeiniolen sydd yn ennill hamper gwerth £25 o Menter Fachwen.

TUDALEN YR IFANC

Anna George - Bardsey's Birds:
Tynnu nyth Drycin Manaw i 'mhen!

Nid cyfeirio at ferched bronnoeth Ynys Enlli ydw i wrth ddweud Bardsey's Birds. Ond yn fwy penodol at Adar Drycin Manaw. Os unrhyw beth, mi fyddai'n well gen i gael fy ngalw'n Aderyn Ddrycin Manaw na'r ych bird gan unrhyw ddyn. Yn un peth, mae sawl bird yn hedfan ymhob man, gallwn i fod yn wylan farus, neu'n waeth fyth yn osterij hyll, neu'n hyd yn oed yn baced di-fwyd o birds-eye fish fingers. Dim diolch!

Dim ond mewn rhai llefydd mae'r Aderyn Drycin Manaw yn nythu, ac mae'n rywogaeth arbennig i ynysoedd Cymru hefyd, gan gynnwys Ynys Enlli. 'Pam galw'r erthygl hwn yn Bardsey's Birds? dwi'n eich clywed yn gofyn. Adar nid Birds welais i pan es i Ynys Enlli am noson, a nifer cyfoethog o rywogaethau gwahanol. Iolo Williams – dwi'n deall dy angerdd di at adar o'r diwedd! Ond 'birds' a gafodd eu harddangos i mi yng nghanolfan adar yr ynys, a bu'r profiad yn siomedig. Wrth bori drwy fy hoff lyfr plentyndod sef 'Llyfr Hwiangerddi y Dref Wen' gan John Gilbert Evans, rwy'n synnu ar gynifer o'r hiwangerddi sydd wedi eu priodoli i adar. Y sawl a dynno nyth y dryw, Ni wêl ddaioni tra bo byw. yw un gwpled. Pennill arall sy'n perthyn i 'Cân y Dryw' yw:

“Dryw, dryw, dryw,
Ble rwy'ti'n byw?”
“Draw ger y nant
Gyda deg o blant.”

Mae'r penillion yma'n mynegi'n syml iawn fod gan y dryw bach ei nyth ei hun, ei gynefin ei hun, a'i dylwyth ei hun. Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, ystyr cadwraeth yw: 'Gwarchodaeth, gwyliadwriaeth, gofal, ymgeledd, cynhaliath.' Cafodd y bardd Ceiriog ei gyhuddo o 'ffolineb' pan ymddangosodd yr hwiangerddi mewn print am y tro cyntaf yn 'Yr Arweinydd' yn 1857. Ar lafar y trosglwyddwyd yr hwiangerddi, ac roedd gweld traddodiad llafar, a rhigymau syml ac i blant ar brint yn brofiad dieithr i oes oedd yn rhoi'r bri ar farddoniaeth aruchel. Ond, eisiau gwarchod, gofalu a chynnal cyfoeth ac amrywiaeth ei iaith a'i llên oedd Ceiriog, a diolch am hynny – mae'r hwiangerddi'n dal i ganu'n llithrig oddi ar dafodau plant a phobl Cymru hyd heddiw.

A thrydar ei iaith ei hun mae'r Aderyn Drycin Manaw. Do, mae'r Aderyn Drycin Manaw wedi clywed sawl iaith ar ei thaith. Yn aderyn môr, nid iaith yr heli'n unig yw ei chân. Fel awgryma'r enw, gall ganu mewn Manaweg coeth; bu nifer fawr o'r rhywogaeth yn nythu ar ynys fechan gerllaw Ynys Manaw o'r enw Calf of Man ar un adeg. Mae hi'n rhugl Gymraeg hefyd, a'i gwaed yn un Celtaidd. Dyma fy ymgais i, i greu rhigymau syml iawn i Ddrycin Manaw yn ei hiaith ar Enlli:

“Ddrycin Manaw,
Lle mae dy alaw?”

“Ar lannau'r lwerydd,
mae fy gobennydd.

Enlli, Sgomer,
ynysoedd lawer,
Sgogwm braf,
ond Ôch! Rwy'n glaf.

Rwy'n Manx Shearwater,
gan ddynion Whatever,
Y Bardsey Bird Observatry
sydd methu odli.”

I Dde America rwyf yn mudo,
yn y gaeaf oer i gludo.
Yno rwyf yn fi fy hun,
yn fwy na Manx heb iaith mewn llun.

Rwyf wedi hedfan llawer taith,
A gallaf drydar mewn sawl iaith.”

Does dim ond rhaid edrych ar enwau mynyddoedd Cymru i sylwi fod perthynas ddofn rhwng yr iaith Gymraeg a'i thir. Cymerer y mynydd Pen yr Ole Wen er enghraifft. Mae'r gair 'golau'n cael ei ddefnyddio gan bawb o ddydd i ddydd, ac mae'n bosib mai enw'r mynydd 'Pen yr Ole Wen' sy'n gyfrifol am ei tharddiad. 'Goleddf' sef 'llethr' neu 'lechweddd' yw ystyr 'ole' yn yr enw yma. Mae'n debyg fod y gair golau felly wedi dod o'r ystyr 'Pen y llethr wen'. Mae hynny'n taro deuddeg wrth gofio fod copa'n 'wen' yn yr enw.

Ceir perthynas yr un mor gref rhwng yr iaith Gymraeg ac adar. Yn ôl Trioedd Ynys Prydain, credai'r Celtiaid mai'r adar chwedlonol Tylluan Cwm Cawlyd, Eryr Gwernabwy a Mwyalchen Cilgwri oedd rhai o anifeiliaid hynaf Ynys Prydain. Rhoddir bri ar hynafiaeth a deallusrwydd yr adar hyn yn chwedl Culhwch ac Olwen, wrth i Gwrhryr Gwalstawd leithoedd, un o farchogion deallusaf Arthur ofyn am wybodaeth wrth Yr Anifeiliaid Hynaf er mwyn rhyddhau Mabon fab Modron o garchar.

Dibynodd Branwen ar ei drudwy er mwyn anfon negesuon nôl i Gymru, a bu'r bиден yn rhoi cyngor i Dafydd ap Gwilym am ei fod yn glaf o gariad yn ei gywydd Cyngor y biden. Dafydd druan oedd Bridget Jones gwrywaidd yr Oesoedd Canol yng Nghymru! Do, fe ddeallodd ein cyndeidiau fod gan yr iaith Gymraeg, ei thir, a'i bywyd gwyllt yr un mam. Clywyd galwad clir rhegen yr yd yma yng Nghymru hyd ddechrau'r 1970au. Doeddwn i heb fy ngeni. Mae'r cornchiglod, aderyn fu'n gyffredin iawn yng Nghymru ar un adeg, ar fin diflannu fel rhywogaeth fagu yng Nghymru o ganlyniad i newidiadau mewn defnydd tir ac arferion ffermio. Ches i ddim clywed y giach a'i gri cwynfanus wrth i'r gwanwyn wawrio chwaith, oherwydd i'w dir lle bu'n nythu gael ei ddraenio. Mae newid yn nulliau amaethyddiaeth wedi newid patrymau nythu'r Gylfinir hefyd. Does ryfedd bod gwylwyr adar yn gweld Ynys Enlli yn noddfa saf.

Ie, noddfa saf. Ond rhaid cadw'r iaith ar fywyd gwyllt Enlli i'r holl rywogaethau nythu'n ddiogel. Mae yno gyfoeth bywiog ar yr ynys: brain goesgoch a phiod môr, crëyr glas, hebog tramor, tinwen y garn, telorion a'r dylluan fach, yr hugan, y llurs a'r fulfran werdd, heb sôn am Ddrycin Manaw.

Er na ches i erioed glywed trydar rhegen yr yd yng Nghymru, dwi'n falch o wybod ei enw. Mae'n rhan o gof cenedl, ac yn rhan o gof fy nheidiau.

Nôl at y gwpled: 'Y sawl a dynno nyth y dryw, Ni wêl ddaioni tra bo byw.' Peidied neb â thwylo Drycinoedd Manaw Enlli, mae hi'n cofio glannau'r lwerydd ac Enlli ers dyddiau'r seintiau. Bu ugain mil o seintiau yno yn ôl y sôn. Pa ieithoedd oedd rheiny'n siarad tybed? Gall sawl un feddwl bod Enlli â meddwl cul a phlwyfol. Mae hynny'n bell o'r gwir. Bu Enlli'n gwneud bargeinion masnach â chewyll o'i chimychiaid ar gyfandir Ewrop cyn unrhyw si am bleidlais Brexit. Mae Enlli'n deall sawl iaith, ac mae hi'n gwrando'n astud ar ieithoedd ei hadar mudol. Enlli hefyd roes enwau Cymraeg ar blant ei haelwyd, a rhaid parchu hynny.

Mae'r wyl fywyd yn y dref gyfagos wedi troi'n uchafbwynt blynyddol i nifer gyda dros 15,000 o ymwelwyr yn heidio i'r dref o bell a chyfagos i ddatlu bwydydd blasus a chynnyrch lleol. Os ydych chi eisiau bod yn rhan o'r wyl eleni, ar ddydd Sadwrn, Mai 13eg 2018, beth am wirfoddoli?

Mae'r trefnwyr, sy'n wirfoddolwyr eu hunain, yn chwilio am dros 100 o bobl i helpu am awr fach neu ddwy ar y diwrnod mawr. Yn casglu arian mewn bwced, dosbarthu rhaglenni neu gyfeirio ymwelwyr i'r cyfeiriad iawn – mae croeso i unrhyw un gymryd rhan.

Er nad yw'n bosib gaddo awyr glir, mae'r awyrgylch yn siwr o fod yn hamddenol a braf. Gyda'r wyl yn ymestyn i fwy o ardaloedd y dref gan gynnwys Doc Fictoria a Phorth yr Aur, dyma'r cyfle perffaith i fod yn rhan o ddatblygiad cyffrous yn y dre.

Hyd yn oed am awr neu ddwy, dyma'r cyfle i unigolion, grwpiau o ffrindiau a theuluoedd fod yn rhan o un o uchafbwyntiau'r gwanwyn. Am fwy o wybodaeth neu i ddangos diddordeb, e-bostiwch katherineowen71@yahoo.co.uk

Ddim awydd gwirfoddoli? Beth am fynychu rhai o'r digwyddiadau codi arian yma:

Mawrth 8fed – Cinio Gala Mawreddog ym Mwyty Friars Bangor gyda'r cogydd enwog Hywel Griffiths a myfyrwyr Coleg Menai. Tocyn £30.

Mawrth 17eg – Noson Cawl a Chân Ffrengig gyda Gwilym Bowen Rhys a Iestyn Tyne ygn Nghlwb Hwyllo Caernarfon. Tocyn £10

Mae mwy o wybodaeth am y cwbl ar www.gwylfwyddaernarfon.cymru

Gŵyl Fwyd Caernarfon yn galw
am wirfoddolwyr o bob oed



Dyma lun o rai o'r criw aeth i gynhadledd Prifysgol Abertawe ar Gampws Coleg Cambria yn ddiweddar. Cafodd disgyblion blynyddoedd 12 a 13 gyfle i wrando ar ddarlithoedd gan ddarlithwyr y Brifysgol megis yr Athro Tudur Hallam a'r Prifardd Aneirin Karadog ar rai o bynciau eu cwrs Cymraeg Lefel Uwch. Cafwyd darlith gofiadwy am ddrama fawr Saunders Lewis, "Siwan," a thrafodaeth hynod ddifyr gan y disgyblion eu hunain mewn seminar gydag Elan Grug Muse ar farddoniaeth gyfoes. Rhoddodd y diwrnod flas i'r disgyblion o natur bywyd myfyriwr, ac roedd y diwrnod yn fuddiol o ran bod yn gymorth wrth baratoi at arholiadau hefyd.

CYNGERDD MAWREDDOG YSGOL BRYNREFAIL

gyda chyn-ddisgyblion, disgyblion presennol a disgyblion y dyfodol!

Nos Wener, 23 Mawrth 2018

NEUADD YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG

Arwel Jones
yn cyflwyno

Trio

Elfed Morgan Morris

Sioned Terry

Mei Emrys

Math Roberts

Côr Ysgol Brynrefail

Band Pres Ysgol Brynrefail

Disgyblion Ysgol Brynrefail

Côr Unedig Ysgolion Cynradd

Talgylch yr Ysgol

Drysau yn agor am **7:00pm** /
Noson i ddechrau am **7:30pm**

Pris Tocynnau:

Oedolion : £6 / Plant dan 16eg : £3

Tocynnau ar gael o Swyddfa Ysgol
Brynrefail, Llanrug – 01286 672 381

**Siop Na Nog, Caernarfon : Palas
Print, Caernarfon**

Bydd elw'r noson yn mynd i gronfa

Cyfeillion Ysgol Brynrefail

Dewch i gefnogi ac i fwynhau talentau'r fro ar
eu gorau.



Llong

Enillwyr
chynnal

Megan C

Joe Ches

Yn ei bla

Llanfairp

Pob l

Os ydy
bwrllwm
2018. B
weithga

Er mwyn
chyd me
hwnnw
Roedd y
mwyn a
meddwl
Roedd s
pheli str
Cymru y
lewch ta

Gweithg
brysur a
a Thech
ymateb
pynciau
sio yn y
Invasion

Bu Blwy
weiniad
Roedde
wedi eu
grwpiau
ddisgyb
gweithg

'Llwydd
a oedd y
Daeth m
Spencer
llwybr g

Cafodd
au arho
Gobeith
brofi gw
sgiliau p

Yfarchiadau Mawr

Cystadlaeth Bowldro 5x60 Gogledd Gwynedd gafodd ei gynnal yng Nghanolfan Beacon ddechrau'r mis.

George, Evie Kiernan, Mabli Baines **1af (Bl 7 a 8)**

ster, Tomos Pritchard, Iago Pritchard **1af (Bl 7 a 8)**

en I ffeinal Gogledd Cymru yng Nghanolfan Indy,

owll ar yr 28ain o Chwefror .

wc!



Diwrnod Sgiliau

h yn dilyn Ysgol Brynrefail ar Trydar cawsoch flas ar y
a fu yma yn ystod y Diwrnod Sgiliau ar Chwefror 9fed
u'n ddiwrnod hynod llwyddiannus gydag amrywiol
reddau ym mhob twll a chornel o'r ysgol.

n ymateb i gais disgyblion i roi mwy o sylw i faterion ie-
eddwl trefnwyd diwrnod o weithgareddau ar y thema
i ddisgyblion Blwyddyn 7 gan fyfyrwyr Blwyddyn 12.
neuadd yn llawn stondinau lliwgar a rhyngweithiol er
nnog trafodaeth a dealltwriaeth am faterion iechyd
fel straen, pwysau, hunan-ddelwedd a sut i ymlacio.
eshiynau hwylio o yoga, ping-pong, Twister, creu sleim a
raen yn cadw pawb yn brysus. Daeth cwmni Groundwork
ma hefyd i gynnal gweithgareddau cymorth cyntaf a diog-
an gyda'r disgyblion hefyd.

gareddau STEM a gadwodd disgyblion Blwyddyn 8 yn
ar y diwrnod dan ofal yr adran Wyddoniaeth, Mathemateg
noleg Gwybodaeth. Trefnwyd y diwrnod yma hefyd fel
i gais disgyblion i wneud gweithgareddau ymarferol yn y
yma. Buon nhw'n rhaglennu ceir bach lego ac yna eu ra-
llyfrgell; yn gwneud gweithgareddau rhif ar thema 'Alien
' ac yn cynnal arbrofion hwyliog.

ddyn 9 yn creu celf amgylcheddol drwy'r dydd dan ar-
artist proffesiynol ac athrawon yr adran Dechnoleg.
n nhw'n defnyddio deunyddiau naturiol a deunyddiau
hailgylchu i greu darnau o Gelf ac arddangosfeydd mewn
a fydd yn cael eu harddangos yn yr ysgol. Daeth criw o
ion Ysgol Dolbadarn yma hefyd i fod yn rhan o'r
areddau.

o'n Lleol' oedd thema'r diwrnod i ddisgyblion Blwyddyn 10
yn rhoi blas iddynt ar fyd busnes ac entrepreneuriaid.
hudiadau a chwmnïau allanol yma fel y fyddin a Marks and
s i gynnal gweithdai ac i eu ehangu gormedion am eu
yryfaol yn y dyfodol.

disgyblion Blwyddyn 11 gyfle i adolygu ac ymarfer eu sgili-
liad Saesneg dan arweiniad athrawon yr adran.
io fod pawb wedi mwynhau y diwrnod ac wedi cael cyfle i
weithgareddau amrywiol a hwyliog sy'n ffordd o ddatblygu
wysig hefyd.



Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Ionawr oedd: £30: Mrs Bethan Thomas, Ty'n Llan; £20: Mr Norman Williams, Llidiart Wen; £10: Mr Geraint Williams, 13 Croes y Waun.

Priodas Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau mawr i Nia, Plas Bod Hyfryd, ar ei phriodas â Siôn Lynch o ardal y Bala. Dymunwn bob hapusrwydd i'r pâr ifanc yn eu cartref yn Llangwm.

Baban Bach Newydd Llongyfarchiadau i Valmai ac Alwyn, Garreg Fawr, ar ddod yn nain a thaid i wŷr bach, Owen. Mab eu merch Helen a'i phriod Meilyr, a brawd a ffrind bach i Delyth.

Pen-blwydd Arbennig Yn ystod mis Ionawr bu Ashton Leggett, Bryn Rhian, yn dathlu cyrraedd ei ddeunaw mlwydd oed a bu Huw Emrys, Gwastadfaes, yn dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed yn ystod mis Chwefror. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Diolchiadau Dymuna Lesley Ann, Stad Tŷ Hen, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig.

Diolch Hoffwn i John, Pant Teg, ddiolch o galon i'm holl gyfeillion a fu mor garedig wrthyfyn dilyn fyllawdriniaeth yn Ysbyty Broad Green Lerpwl ddechrau'r flwyddyn.

Gwellhad Buan Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau gorau am wellhad i Siôn, Penrhos, a Robert ap Wyn Williams, Caernarfon, sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty ym Mangor.

Gorfu i Caleb John, Stad Bryn Golau, dreulio rhai dyddiau o wyliau hanner tymor yr ysgol yn yr ysbyty ond mae yn gwella erbyn hyn ac wedi cael dod adref.

Cymerwyd William, mab bach Paige a Steven Sykes, Stad Bro Waun, i Ysbyty Gwynedd ond mae wedi cael dod adref yn awr.

Daeth anffawd i ran Diane, Arosfa, yn ystod y tywydd o rew ac eira. Llithrodd ar y ffordd ac anafu ei choes. Mae'n dda ei gweld yn gwella erbyn hyn.

Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau da at Mrs Nelma Pritchard, Stad Croesywaun, wedi iddi dderbyn triniaeth yn yr ysbyty.

Dymunwn wellhad buan i Shona, Bryn Celyn, wedi iddi

gael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Edrychwn ymlaen i dy weld o gwmpas, Shona.

Diolch Mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn i'r meddygon, y nyrsys a staff y Feddygfa. Mae ein gwerthfawrogiad a'n diolch yn fawr iawn iddynt am eu gofal a'u caredigrwydd.

Cydymdeimlo Daeth y brofedigaeth o golli brawd, Evie, a oedd yn byw ym Mangor, i ran Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan. Cydymdeimlwn â hi a'r teulu yn eu profedigaeth.

Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Bryn Teg yn eu profedigaeth o golli mam, Jane, mam yng nghyfraith i Dafydd a nain annwyl Alice.

Daeth y brofedigaeth o golli un annwyl i ran dau deulu a chysylltiad â'r Waun:

Cydymdeimlwn â Mrs Megan Jones, Llanrug, y genod a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli Now (Ty'n Wern, gynt)

priod, tad a thaid annwyl iddynt.

Bu farw Mary (Pant Gwyn gynt). Cydymdeimlwn â'i brodyr, Dic a Bob Owen (Pant Gwyn gynt) a'r teulu yn eu profedigaeth.

Pwysig. Dalier Sylw. Y Ganolfan

Diolch i bawb ddaeth i'r cyfarfod cyhoeddus ar Chwefror 7fed. Bu inni drafod aelodaeth pwyllgor y Ganolfan. Roeddem yn falch iawn bod rhai a oedd yn bresennol yn fodlon dod i gefnogi'r pwyllgor. Bydd y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor yn y Ganolfan ar nos Fercher, Mawr 7fed, am 7.30 o'r gloch. Taer erfynnir ar i'r aelodau presennol a'r rhai newydd fod yno a gofynnir yn garedig i bob mudiad o'r pentref sy'n defnyddio'r Ganolfan ar gyfer eu gweithgareddau anfon un neu ddau aelod o'u pwyllgor i'w cynrychioli. Diolch yn fawr.


Gwasanaethau Capel y Waun am fis Mawrth

4: T. Alun Williams, Caernarfon

11: Anna Jane Evans

18: Y Parch Reuben Roberts

25: Y Parch Nan Wyn Powell-Davies - bydd Cymun.



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.fframia.com

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



DODREFN A LLORIAU

PERKINS

FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

ARVONIA







- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvoniaco.uk



Teithiau Cerdded

MawrthGWENER 9 MAWRTH 1.30yp

RACHUB A LLANLLECHID: BOMIAU, CHWAREL
AC ADEILADAU COLL (1½ milltir)
CYCHWYN: TU ALLAN I'R ROYAL OAK, RACHUB
EITHA HAWDD. SGIDIAU CERDDED

MERCHER 14 MAWRTH 10.00yb
TAITH GERDDED DINAS DINLLE: CAER
ARIANRHOD, YR OES HAEARN, YR AIL RHYFEL
BYD (HYD AT 2 FILLTIR)
GYDA MARTIN DAVIES, ARDAL
CYCHWYN: MAES PARCIO DINAS DINLLE
EITHA HAWDD. DEWCH A SGIDIAU CERDDED I
GRWYDRO'R TRAETH

IAU 22 MAWRTH 10.00yb
TAITH GERDDED DATHLU 5 MLYNEDD
CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD MENTER
FACHWEN
CWM Y GLO I STABLAU* (3½ milltir)
CYCHWYN: CAFFI MENTER FACHWEN, CWM Y
GLO
EITHA HAWDD. SGIDIAU CERDDED.
*OLRHAIN Y DAITH CYNTAF (MIS MAWRTH
2013)

MERCHER 28 MAWRTH 10.00yb
CHWAREL ALEXANDRA, MOEL TRYFAN: CAPEL,
CHWAREL A RHEILFFORDD COLL (3½ milltir)
GYDA MARTIN DAVIES, ARDAL
CYCHWYN: GER SAFLE HEN GAPEL HERMON,
UWCHBEN RHOSGADFAN
EITHA HAWDD. SGIDIAU CERDDED. TRACIAU YN
BENNAF OND UN LLWYBR.

Siân Gwenllian AC Plaid Cymru yn dathlu cam cyntaf cyflwyno'r bleidlais i ferched 100 mlynedd yn ôl

Rwyfyn falch o nodi y 6ed o Chwefror fel diwrnod pwysig ar y daith
tuag at gydraddoldeb i ferched. Cafodd y Ddeddf Cynrychiolaeth
y Bobol ei phasio ar 6 Chwefror 1918 oedd yn rhoi'r bleidlais i rai
merched am y tro cyntaf.
Rydym yn parhau i geisio cyrraedd tuag at gydraddoldeb llawn
ym mhob agwedd o fywyd. Mae'n hi'n daith sydd wedi gweld colli
bywydau. Mae hi yn parhau i fod yn daith hir a blinderus.
Ond mae fy nghenhdlaeth i o ferched yn benderfynol o roi pob
cefnogaeth i'r lleisiau benywaidd ifanc sy'n gynyddol ddig am
y ffordd y mae nhw'n cael eu trin yn y Gymru gyfoes, gan ein
gwneud ni mor benderfynol ag erioed o roi blaenoriaeth i'r angen
i gyrraedd cydraddoldeb rhywedd llawn – yn benderfynol o roi
brys i'r gwaith – ac o'r angen i roi cydraddoldeb rhywedd yng
nghanol yr agenda gwleidyddol yma yng Nghymru.

Apêl am Gymorth

•Enw: Natalie Meek, 14 oed o Lanberis. Disgybl yn Ysgol
Brynrefail (blwyddyn 10)

Aelod o'r Clybiau dilynol: Llanberis Girl Guides, Clwb
Pêldroed Merched Bethel, Clwb Hoci Caernarfon, Menai
Track and Field, Clwb Antur Dyffryn Peris, Clwb Pêl-rwyd
Brynrefail, Clwb Rhedeg DVT

Yn ddiweddar, rwyf wedi cael fy newis i gynrychioli Cymru
yn y 'World Scout Jamboree' sy'n cael ei gynnal gan Mecsico,
Canada ac America yng Ngorffennaf 2019. Mae'r profiad
cyffrous yma'n cynnwys ychydig o ddyddiau mewn dinas
enfawr (sydd heb ei benderfynu eto), ond yn unai New York
neu Washington. Hefyd, 12 noson o gampio yn y Jamboree
sy'n cael ei seilio yn West Virginia, ac i orffen rydym yn cael
'Hosted Hospitality' am 5 diwrnod. Golyga hyn ein bod ni'n
cael y cyfle i aros gyda grŵp o 'Scouts' o un o'r gwledydd
Mecsico, Canada neu America i ddysgu ychydig am eu ffordd
o fyw a chael y cyfle i grwydro rhywle newydd.

Roedd rhaid i mi fynychu treialon er mwyn cael fy ystyried
fel 'Girl Guide' ryngwladol. Yn dilyn y treialon, cefais wybod
fy mod wedi bod ddigon llwyddiannus i fod yn y tîm. Rydw
i yn un o 9 o Girl Guides yng Nghymru sy'n cael y fraint o
fynychu y Jamboree, gall pob 'Scout/Girl Guide' ond fynychu'r
Jamboree unwaith yn eu bywyd. Er mwyn cael eich dewis
roedd rhaid i chi fod wedi cael eich geni rhwng 2001-2005 a
mae'r Jamboree ond yn digwydd pob 4 mlynedd. Pwrpas y
Jamboree yw i wneud ffrindiau bythgofiadwy ac i ddysgu am
wahanol diwylliannau. Fi yw'r unig siaradwr Cymraeg yn y
grŵp felly mi fyddaf yn chwarae rôl bwysig iawn o gyflwyno'r
iaith i Scouts o wledydd eraill.

I allu mynd ar y daith, mi fydd rhaid i mi godi £3495 rhwng
rŵan a mis Mehefin 2019. Rwyf yn trio fy ngorau i godi arian
mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft rydw i'n gwneud 'Sponsord
Mileage' yn fisol, yn mis Ionawr rhedais 50 milltir a rydw
i'n dymuno cwblhau y sialens eto yn mis Chwefror. Yn mis
Mawrth, dymunaf i gwblhau 75 milltir. Hefyd, mi fyddaf yn
cynnal sesiynau chwaraeon yn y gymdeithas Girl Guiding. Yn
fuan, gobeithiaf bacio bagiau mewn archfarchnad, gwerthu
cardiau a chacennau a chynnal raffl Pasg.

Yn ogystal, mae Ben Bolton, hyfforddwr Clwb Pêl-droed
Merched Bethel, yn rhedeg hanner Marathon Ynys Môn er
mwyn codi arian tuag at y daith. Mae Ben wedi creu tudalen
'GoFundMe' er mwyn i unrhyw berson allu cyfrannu. Gallwch
gael hyd i'r dudalen yma ar Facebook 'Bethel LadiesFC.'

Premier

Y Stofa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

TAN GARRET



Roedd yn ddiddorol darllen teyrnged i Mrs Eluned Roberts (rhifyn Nadolig 2017/Ionawr 2018), ac wedyn erthygl Glyn Tomos (rhifyn Chwefror 2019) am y tŷ uchaf yng Nghymru. Roedd yn sefyll tua 1,300 troedfedd uwchlaw y môr. Dyma gysylltiad fy nheulu i gyda'r lle.

Yn ôl cyfrifiad 1911 yr oedd fy nhaid, John Henry Evans yn byw yn Pen Y Bonc, Brynsiencyn. Nodir mai gyrrwr locomotif oedd ei alwedigaeth. Bu'n yrrwr yn Ffeiar Injan Chwarel Dinorwig ar hyd ei oes. Buaswn yn dyfalu ei fod yn croesi y Fenai bob penwythnos ac yn aros yng nghyffiniau Dinorwig yn ystod yr wythnos waith. Y John Henry Evans yma oedd Jac Ewrop i lawer, ac yr oedd sawl aelod o'r teulu yn cael eu hadnabod felly hefyd.

Mae dau lun dosbarth ysgol fy mam yn fy eiddo, sef Ysgol Gynradd Brynsiencyn. Mae'r lluniau yn dyddio o 1917 ac 1919. Ymddengys bod y teulu wedi mudo o Ynys Môn tua 1920 ac wedi ymgartrefu yn Nhan Y Garret. Roedd y teulu yn cynnwys tri o blant, fy nain a'm taid, a'm hen daid (tad fy nain) sef Owen Jones. Bu farw hen daid arall i mi, Hugh Evans (1858-1924) yn Nhan Y Garret. Cyflwynwyd Testament i fy mam yng Nghapel Sardis, Dinorwig, dyddiedig Nadolig 1924. Nodir mai Groeslon Uchaf oedd ei chyfeiriad erbyn hynny. Felly cwta bedair blynedd y bu'r teulu yn Nhan Y Garret. Nodir ar ddogfen hwylio Charles Evans (brawd Jac Ewrop) i Efrog Newydd, America, mai Ellen Evans oedd ei gyswllt agosaf. Roedd hi yn byw yn "Voel Cottage", Dinorwig erbyn hynny. Ellen oedd gwraig weddw Hugh Evans.

Dyddiad y ddogfen hwylio oedd Ionawr 1925. Roedd Charles Evans ar ei ffordd i Wilkes Barre, Pennsylvania. Daeth yn ei ôl a phriodi Maggie Jones yn 1934, ac ymgartrefu yn "Dublin House", Dinorwig. Roedd aelodau y teulu felly wedi symud eto.

Mae'n gwneud synnwyr bod Eluned Roberts wedi ei geni yn Nhan Garret yn 1925, ac i Goronwy Lewis, yntau ei eni yno yn 1935.

Mae gennyf gof plentyn o ambell stori am Tan Garret a Groeslon Uchaf. Roedd y tywydd yn arw iawn ar adegau. Roedd eira yn ymestyn o un pen wal i'r llall, ac mae'r walia ar Lôn Garret yn rhai uchel. Os oedd yr eira yn garchar i'r teulu, yna roeddynt wedi paratoi ar ei gyfer. Roedd blawd yn cael ei brynu fesul sach-rhag ofn! Roedd paraffin yn cael ei gludo o bentref Dinorwig.

Treuliodd y teulu rhwng 12 ac 13 o flynyddoedd yn Groeslon Uchaf. Symudon nhw wedyn i Bentre Helen, Deiniolen, a hynny tua 1937. Yn 1939 bu farw brawd fy nhaid, Hugh Evans (un arall!) a'r cyfeiriad ar ei garreg fedd yw 53 Pentre Helen. Yr Hugh yma oedd tad Alun Wyn Evans a thaid Dafydd Evans a'r ddiweddar Dilys (twins).

Bûm yn ffodus iawn i allu olrhain hanes fy nheulu, ond erys dirgelwch. Pryd y bu Owen Jones farw, ac ym mhle y cafodd ei gladdu? Os oes rhywun o ddarllenwyr yr Eco yn gwybod rhywbeth am Owen Jones buaswn yn ddiolchgar o dderbyn y wybodaeth.

John Alan Roberts

Llwybrau Pentir

Er nad yw'n 'swyddogol' o fewn bro'r Eco, mae nifer o'r ardal yn prynu'r papur, a braf yw cael cyhoeddi y pamffled diweddaraf yn nghyfres Cerdded a Darganfod. Unwaith yn rhagor bu Gareth Roberts, Menter Fachwen yn casglu a didoli gwybodaeth, a hel lluniau o'r plwyf ar gyrion bro'r Eco. Mwy o waith cerdded, a mwy o waith darganfod dros fisoedd y gwanwyn.



Gair o Deyrnged i'r diweddar Mr John Ellis Morris, Rhiwen

Bu i'r diweddar, erbyn hyn, John Ellis Morris farw yn dawel yn Ysbyty Gwynedd yn 104 mlwydd oed ar Ionawr 21ain. Does dim rhaid dweud, efoedd yr aelod hynafyn Eglwys Cefn y Waun ac wedi ei ddwyn i fyfyr yn yr eglwys. Ond i chwi edrych arno ni fuasai neb yn gallu credu ei oedran. Yr oedd yn edrych yn osgeiddig, tal ac heb gamu dim, a gwên foddhaus ar ei wyneb bob amser. Roedd yn ŵr hynod o weithgar, rhywbeth ganddo i'w wneud a'i ddweud bob amser. Yr oedd yn ei elfen yn cael tynnu coes ac yn hynod o ddifyr i fod yn ei gwmni. Ni chlywais i erioed mohono yn cwyno a chafodd iechyd da ar hyd ei oes. Credaf nad oedd ganddo amser i gwyno nac i feddwl amdano ei hun.

Yn niwedd Hydref y daeth andros o newid i'w fywyd pryd y bu raid iddo fynd i Ysbyty Gwynedd a hynny yn erbyn ei ewyllys. Bu yn reit wael pan yno a finnau wedi ffarwelio hefo'r 104, ond gan ei fod o gyfansoddiad cryffe enillodd y dydd. Er mwyn iddo gael ei gefn ato, yn erbyn ei ewyllys eto, i Ysbyty Eryri y bu rhaid mynd er, fel y dywedodd wrthyf fwy nac unwaith, i Rhiwen yr oedd am fynd i gryfhau.

Erbyn hyn nid oedd cyflwr ei iechyd yn rhy dda ac nid oedd gobaith iddo gael mynd adref, felly rhaid oedd iddo gartrefu yng Nghartref Plas Pengwaith, Llanberis, ond nid o'i fodd. Er y gofal a'r croeso a gafodd yno nid oedd yn John Morris mwyach. Fe ballodd ei olwg ac roedd ei gerddediad yn hollol ansad ac araf a mwy na hynny yr oedd y wên foddhaus oedd ar ei wyneb wedi pallu. Ond, er y cyfan cafodd fyw i ddathlu ei ben-blwydd, ar Ragfyr 22ain, yn 104. Erbyn hyn nid oedd eisiau gwybod, yr oedd wedi blino, roedd ei fywyd yn boen a blinder a'r cryfder a feddai wedi mynd. Yr oedd yn hollol eglur bod ei ddyddiau wedi eu rhifo.

Gofynnodd i mi un diwrnod yn ystod y dyddiau yma a oeddwn yn adnabod ac yn cofio y diweddar Barchedig John Roberts, Llanfwrog ac yn gwybod un o'r emynau a ysgrifennodd ef, sef

'Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr

Heb un cydymaith ar hyd llwybrau'r llawr'.

Dywedais fy mod ac meddai 'dyna fel yr wyf innau yn teimlo'n awr'. Yr unigrwydd wedi gafael ynddo.

Fe'i ganwyd yn Cynfi, yna oddi yno i Tan y Foel. Wedi iddo briodi â Liz fel y byddai yn dweud, cartrefodd y ddau yn Rhiwen, y tŷ y bu i'r ddau gartrefu ynddo ar hyd eu hoes. Ganwyd iddynt ddau fab, sef Haydn a Gwyn. Chwarelwr ydoedd ac yn yr oes honno, os am gyflog rhaid oedd gweithio yn galed ar bob tywydd. Dyma lle y bu i fy nhad ac yntau ddod i adnabod ei gilydd a dod yn ffrindiau oes. Nid oedd yr un o'r ddau yn well na'i gilydd am dynnu coes, roeddynt bob amser yn barod i dynnu coesau ei gilydd.

Bu i'r chwarel gau yn 1969. Wedi hynny aeth John Morris i weithio i Hotpoint yng Nghyffordd Llandudno ond yn fuan iawn daeth angen gofalwr i Ysgol Deiniolen a bu yn lwcus i gael y swydd. Yr oedd yr athrawon a'r plant yn hoff iawn ohono. Yma eto daeth y tynnu coes i'r amlwg. Cofiaf un tro iddo ddweud wrth un athro bod y diweddar Mr Eames, y prifathro ar y pryd, yn chwilio amdano ers peth amser a'r athro wedi cynhyrfu'n lân a mynd ar frys i weld y prifathro. Wrth gwrs, doedd dim o'r fath beth yn bod a John yn mwynhau y cyfan. Yr oedd wrth ei fodd yn y swydd yma, Hoffai'r plant a'r plant yn ei hoffi yntau. Fo oedd y dyn i'r swydd, yr oedd yn andros o dwt a phob man fel pin mewn papur. Nid oedd modd cael neb gweld na fo ond, yn anffodus, yn yr oes honno roedd yn rhaid ymddeol pan yn 65, felly rhaid oedd gadael ar ôl 10 mlynedd.

Wedi ei ymddeoliad yr oedd yr un mor brysur yn y cartref, roedd yr ardd yn werth ei gweld. Aeth ati i gadw gwenyn, cadw ieir, gofalu am y cartref oddi mewn ac allan, a chan gofio bod y cartref ar y ffordd fawr byddai'n cael llawer i sgwrs hefo hwn a'r llall fyddai'n pasio yn ystod y dydd. Yr un yr oedd yn rhoi y gofal mwyaf iddi oedd Liz, mynd a dod â hi yma ac acw. Fe fu iddo golli ei wraig lawer blwyddyn yn ôl bellach ond yr oedd cystal ac unrhyw wraig yn y tŷ.

Daeth y newid mawr i Mr Morris yn Hydref 2017, yma yr aeth ei fywyd ar chwâl. Dim mwy o alw yn Rhiwen ac fe fu i mi golli hyn yn fawr. Bu iddo fod yn ffyddlon iawn i fy nhad pan aeth o yn wael iawn yn 1975 a ni fyddaf byth yn gallu anghofio hynny. Er salwch creulon fy nhad byddai yn galw i'w weld a'r tynnu coes yn parhau. Erbyn hyn nid oedd dad yn gallu talu yn ôl ond, er y gwaeledd, yr oedd yn gwneud ei orau i chwerthin. Braint fawr i mi, yn rhinwedd fy swydd fel blaenor, oedd cael trio talu'n ôl iddo drwy alw i'w weld. Byddai'n rhaid gwneud yn siŵr bod gennyf ddigon o amser i sôn am dad, y chwarel, ardal Dinorwig a phwy oedd yn byw yn y tai, a'r emynau. Credaf ei fod yn gwybod tri chwarter y llyfr emynau, yr oedd ei gof yn wych. Erbyn y byddwn yn gadael byddai

y tân wedi diffodd a minnau yn falch o fynd i'r car i gynhesu.

Bu ei angladd yn gyhoeddus yn Amlosgfa Bangor ddydd Iau, Chwefror 1af, a braf oedd gweld wrth basio Rhiwen bod ei gorff wedi cael dod adref am y tro olaf. Diolch i'r plant am i'r cynhebrwng gael cychwyn o adref, yn sicr, dyma gario allan beth fuasai Mr Morris eisiau. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig John Pritchard, y Parchedig Geraint Roberts (gweinidog Gwyn av Einir), teyrnged gan y Canon Idris Tomos a Siân, merch Haydn. Yr oedd yr Amlosgfa yn orlawn gyda rhai yn sefyll a'r canu ar ei orau. Rhoddwyd ei lwch hefo Liz, yn Pentir.

Bu Gwyn ac Einir yn hynod garedig hefo fo am flynyddoedd. Gwyn yn galw lawer gwaith mewn wythnos ac Einir yn gofalu ei fod yn cael bwyd cartref. Ar ddydd Iau byddai Gwyn yn mynd â fo am dro a chael cinio allan a'r bwyd, ran amlaf, fyddai sgodyn a sgolodion. Byddai Gwyn yn gwneud llawer o bethau fel torri'r ardd a chadw y lle yn eithriadol o dwt er i Mr Morris ddweud mai fo oedd yn gwneud y pethau yma. Wrth gwrs, gwrando a dweud dim.

Gan fod Haydn a'r teulu yn byw ym Mirmingham nid oedd yn gallu ei weld na gwneud dim iddo mor aml. Mae cydwybod Gwyn ac Einir yn dawel iawn. Tra yn gwybod beth oeddynt yn ei wneud rhaid cofio a diolch i Bleddyn ac Edith hefyd. Wedi colli Bleddyn rhaid oedd i Einir a Gwyn dalu teyrnged i Edith a fyddai yn galw lawer gwaith yn ystod y dydd i'w weld ac os oedd angen rhywbeth, yn sicr ddigon fe wnâi Edith hyn heb feddwl ddwywaith. Cymdoges werth ei chael. Diolch i chi, Edith.

Cydymdeimlwn yn fawr â Haydn a Gwyn a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth. Mae John Morris wedi gadael bwlch mawr ar ei ôl wedi oes mor hir. Dad ydoedd wedi'r cyfan, un digon hawdd ei drin ac yn brolio Gwyn ac Einir bob amser.

Mr Morris, braf oedd cael y fraint o basio llawer i orig hapus hefo chi a diolch am eich ffyddlondeb i dad. Credaf eich bod wedi cael bywyd llawn ac yn awr yn eich unigrwydd yr ydych yng ngofal y Brenin Mawr ac yn ôl hefo'r wraig orau yn y byd (geiriau Mr Morris ei hun). Cysgwch yn dawel a gwyn eich byd ar ôl oes mor hir a chyflawn.

Cofion Anfonwn ein cofion fel ardal at Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, sydd yn prysur ddilyn Mr John Morris a Mrs Priscilla Williams hithau ran oedran, gan obeithio y caiff weld ei phen-blwyddyn yn 103 ym mis Mehefin, Y plant, Eirwyn a Marsli, yn gofalu amdani ac yn gwneud yn sicr na chaiff gam. Gobeithio yn arw eich bod yn cadw yn weddol ac yn dal heb anwyd gan bod y tywydd yn andros o oer.

Mis Chwefror Byddai fy mam bob amser yn dweud na fyddai yn orhoff o fis Chwefror. fel hyn y byddai yn dweud, 'Mis Bach ond er hynny mis peryclaf y flwyddyn'. Eleni yr wyf yn gallu deall pam. Yr ydym wedi cael pob math o dywydd, eira, oerni, gwynt a glaw ac y mae wedi bod yn andros o oer. Mae llawer un yn yr ardal wedi bod yn cwyno am ddyddiau hefo'r fflw neu anwyd. Eto byth y mae hanner y mis i fynd eto, felly triwch gadw yn gynnwys a gwyliwch ar ôl eich iechyd gan ddymuno i bawb sydd yn cwyno wellhad buan.

Y Tŷ Uchaf yng Nghymru Lawer gwaith o'r blaen bu imi ddweud yn yr Eco bod golygfa fendigedig o Tan Garret, Dinorwig. Cofiaf yn dda rai a fyddai'n aelodau yng Nghapel Dinorwig ac yn byw yn y bythynnod yma, Mr a Mrs John Roberts, Terfyn, dyn reit fawr efo gwallt clærwyn, het galed ddu, crys gwyn, siwt ddu a chot fawr ddu. Urddasol iawn oedd y ddau a'r ddau yn hwyr i'r capel bob amser. Deallaf yn awr pam yr oeddynt yn hwyr gan bod iddynt andros o ffordd i'r capel ond yn ffyddlon iawn.

Mrs Hannah Jane Jones, Braich Poeth, nid wyf yn cofio ei gŵr o gwbl ond, ar ôl ei farwolaeth, bu iddi roi cartref i Eirlys ac Ann. Byddai hi a'r genod yn ffyddlon iawn.

Mrs Hughes, Groeslon Uchaf a Jane, byddai Mrs Hughes wrth yr organ bob amser a doedd fiw i neb arall edrych arni. Byddai yn y capel bob Sul, y Gobeithlu, Seiat a'r Gymdeithas.

Mrs Dina Jones, Groeslon, dynes siaradus iawn ac yn ffyddlon i'r achos. Bryn Sardis, Mr a Mrs David Hughes. Dafydd Hughes eto'n urddasol iawn ac yn gweddio hyd at ddagrau yn y set fawr. Bu iddynt roi cartref i Owen Richard Williams, yntau efo het galed ddu ac yn urddasol iawn ac yn gweddio am tua hanner awr bob tro. Yr oedd yn gas gennyf ei weld yn codi i fynd i weddio. Byddai ef ym mhob gwasanaeth yn ystod yr wythnos.

Oliver a'i chwaer yn Aelwyd Uchaf, ni allaf yn fy myw gofio enw ei chwaer ond yr oedd yn ddynes stormus iawn. Yr oedd Oliver yn ddyn gwael ac ni fyddai yn dod i'r capel ond yn dal yn aelod, ond byddai hi yn dod a byddwn ofn edrych arni.

Parfydd bod Capel Dinorwig wedi cau l Ddaeth neb yn lle y rhai uchod a rhai o'r cartrefi yn adfeilion bellach. Cofion da amdanynt oll, fe fu colled fawr i'r eglwys ar eu hôl. Tybed faint yn yr ardal sydd yn eu cofio.

COFIO JOHN ELLIS MORRIS

Yn Ysbyty Gwynedd ar Ionawr 21ain, wedi gofal arbennig yng nghartref Plas Pengwaith, bu farw John Ellis Williams, Rhiwen, ag yntau yn 104 mlwydd oed. Roedd yn briod ffyddlon i'r ddiweddar Elizabeth, tad a thad yng nghyfraith annwyl Haydn a Jennifer, Gwyn ac Einir a thaid a hen daid balch. Roedd ei gynhebrwng yn Amlosgfa Bangor dydd Iau, Chwefror 1af. Gwasanaethwyd gan y Parchedig John Pritchard, Y Canon Idris Thomas a'r Parchedig Geraint Roberts. Rhoddwyd teyrnged arbennig iawn iddo yn y gwasanaeth gan y Canon Idris Thomas, Glanrafon, Deiniolen, a dyma grynodedd ohoni.

"Pan ddeuthum yn ôl i'r ardal ar ôl ymddeol, ysgrifennais erthygl pan ddathlodd John ei ben-blwydd yn 100 oed. Roedd ei gof mor fyw ac roedd ei atgofion yn fyrlymus. Fel y gwn yn dda o'i adnabod o ddyddiau plentynod, roedd yn wr golygus, trwsiadus, bonheddig, croesawgar, caredig a gwerthfawrogol. Ni edrychai yn gorfforol ei fod mewn gwth o oedran, glandeg a gosgeiddig ei ymddangosiad ydoedd hyd y diwedd. Byddai ei gyfarchiad yn llawn asbri ar ei aelwyd ac ychwanegai tanllwyth o dân at y croeso. Byddaf yn trysori yr holl ymweliadau ag ef.

Fe'iganed yng nghfefn Cynfi House, gerllaw Ysgol Llandinorwig, yn un o chwech o blant i Hugh a Jane Morris. Cafodd dau o'r meibion, sef Richard a Iorwerth, eu lladd o fewn pum niwrnod i'w gilydd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn achos Iorwerth ei ladd ar ei ddiwrnod cyntaf ar dir Ffrainc ac yntau ond 18 oed. Pan oedd John yn 4 oed symudodd y teulu i aelwyd cyfagos Tanfoel a daeth tristwch eto i'r teulu pan fu farw mam John yn 39 oed. Erydd drom iawn oedd hon. Ynghanol y Rhyfel Byd Cyntaf aeth John yn ddisgybl i Ysgol Eglwys Llandinorwig gerllaw ac roedd ei gyfnod yno yn fyw iawn iddo a meddyliai y byd o'r sgwlyn, sef John Roberts. Yn 14 oed dechreuodd weithio ym mhonc Abyssinia yn Chwarel Dinorwig ac yn 21 oed gweithiai

Fargen hefo'i dad. Treuliodd 40 mlynedd yn y Chwarel gan orffen ym mhonc Penrhydd Bach. Drwy ei oes a hyd y diwedd cofiai John am lu o straeon, yr hiwmor direidus ond pwysleisia bob tro am y gwmniaeth yn y Chwarel, nad oedd ei gwell ar wyneb daear.

"Wyddoch chi," meddai John wrthyf yn fynych, "aiff fy meddwl yn ddyddiol i'r Chwarel, yno rwy'n byw o hyd, daw atgof am yr hogia yn fyw imi fel ddod." Gadawodd y Chwarel am gyfnod pan aeth i weithio i ffatri Hotpoint yng Nghyffordd Llandudno ond yn ôl i'r chwarel y daeth yn ystod ei ddwy flynedd olaf. Treuliodd wedyn 10 mlynedd olaf ei oes gweithiol fel gofalwr Ysgol Gwaun Gynfi ac roedd wrth ei fodd yno ymysg y plant a'r staff a meddyliai y byd o'r pennaeth, sef William Eames. Priododd bythefnos cyn i'r Ail Ryfel Byd gychwyn a disgrifia ei briod Elizabeth fel "trysor o wraig". Yng Nghapel Cefnywaun yr addolai John a'i briod hoff. Disgrifiodd John ei hun i mi fel "tyddynwr", cadwai ddefaid, gwartheg a ieir a gwnaeth ddefnydd helaeth o'i ardd fawr, bu'n cadw gwenyn, ac roedd y tŷ gwydr yn bwysig. Dotio a wnâi pawb at lendid a thaclusrwydd Rhiwen gyda phopeth yn ei le. Codai yn ddyddiol am saith hyd y diwedd ac, ar ôl uwd i frecwast âi ati i glirio'r grât a gwneud tân, doedd diogi ddim yn rhan o'i wead. Diwrnod arbennig oedd ei ben-blwydd yn gant oed gyda'r teulu oll ynghyd, dau gant a mwy o gardiau wedi cyrraedd a phlant Deiniolen yn canu wrth y drws. Mawr oedd ei ddiolch i'w gymdages arbennig, Mrs Edith Thomas, ac i Einir a Gwyn, a soniai gydag anwyldeb am deulu Haydn yn Birmingham. Dwy linell anfarwol o gerdd y Prifardd Dic Jones i un arall sy'n dweud y cyfan am John Ellis Morris, Rhiwen hefyd -

"Nid golud ei go' helaeth-sy'n gafael,
Nid ei ddoniau hael ond ei ddynoliaeth."

Dymuna Haydn, Jennifer, Gwyn, Einir a'r teulu ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli John Ellis Morris, Rhiwen. tad, taid a hen daid arbennig iawn. Diolch am yr holl gardiau, llythyrau, galwadau ffôn, ymweliadau a hefyd am roddion hael tuag at Gartref Plas Pengwaith. Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth teimladwy, i'r Canon Idris Thomas am deyrnged arbennig ac i'r

Parchedig Geraint Roberts am ei gyfraniad yntau.

Diolch arbennig hefyd i holl staff Plas Pengwaith am eu gofal a'u caredigrwydd diflino ohono. Diolch o galon i Dylan a Meinir Griffith, ymgymerywyr am eu gwasanaeth teimladwy trylwyr a pharchus.

Profedigaeth estynnir ein cydymdeimlad llwyrat at deulu'r diweddar Gwilym Tate Williams a fu farw yn frawychus o sydyn wedi gwaeledd byr. Roedd Gwil yn adnabyddus fel artist gyda'i siop yn y

Gilfach Ddu a chyn hynny yn Neiniolen, gan arbenigo mewn creu celf o lechi. Roedd yn feirniad gofalus am nifer o flynyddoedd yn eisteddfod y pentref ag yn gefnogwr brwd o waith celf yr eisteddfod.

Estynnir hefyd ein cydymdeimlad at deulu Ellen Owen a fu hefyd farw yn ddiweddar

Cydymdeimlir â theulu John Morris, Rhiwen, a fu farw yn ddiweddar, Roedd Mr Morris wedi cyrraedd oedran mawr a than yn ddiweddar yn

parhau i fyw bywyd llawn ac annibynnol yn ei gartref yn Rhiwen, Mae llawer yn ei gofio fel gofalwr ysgol y pentref ag fel garddwr heb ei ail, Mi fydd colled fawr ar ei ôl.

Diolch hoffai John, Lynda a Gwenllian ddiolch yn fawr am y cardiau, y rhoddion a geiriau caredig wedi eu colled yn ddiweddar.

Cais am Newyddion Fel y gwelwch, prin iawn yw hanes y pentref y mis hwn, Gofynnir felly am hanesion i'w cynnwys yn y tudalennau yma yn fisol.

POSH PAWS
TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com


SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN
O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol-
07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Eboist- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN
CIGYDDION
Y FRO
YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

Parhad DEINIOLEN

Gwelwyd hanes diddorol ar un o gerrig beddi Mynwent Macpela Deiniolen yn ddiweddar, Mae'n nodi:



er serchog gof am
Evan W Francis Fron Goch Dinorwic
fu farw ebrill 15ed 1877
yn 74 ml oed
bu yr uchod yn ddiagon gyda'r M.C.
am 39 o flynyddoedd
Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig
hefyd ei feibion
John, a fu farw Gorff 11eg 1874
yn Round Rock Williamson County
Texas U.S.A yn 30 ml oed
Robert a fu farw Maw 8fed 1876

Oes rhywun yn gwybod hanes John Francis a pham y bu farw mor bell o Ddinorwig, mewn tref yn Texas o bob man. Mae ychydig o ymchwil yn dangos bod Round Rock bellach yn ddinas go fawr ger Austin ond fe'i sefydlwyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel man hwylus i groesi afon gyda gwartheg. Dyma gyfnod y cowbois, wrth gwrs, a fu John druan yng nghanol ryw helynt mewn salŵn neu ydi'r hanes yn fwy diniwed? Tybed oes rhywun yn gwybod?

PENISARWAUN ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

Ysgol Gymuned Penisarwaun

Dyma ychydig o hanes gan Branwen am ei phrofiad yng Ngala Nofio Genedlaethol yr Urdd.

"Ar Ionawr 20fed cefais y fraint o fynd i Gala Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd i gynrychioli Eryri. Roeddwn yn cystadlu yn y dull rhydd. Roedd yn brofiad arbennig iawn i mi gael cystadlu yno. Llwyddais i dorri fy record bersonol. Roeddwn yn falch iawn.

Branwen Hedd Gruffudd

Rydym ninnau fel ysgol yn falch iawn o lwyddiant Branwen llongyfarchiadau mawr iddi.

Eisteddfod yr Urdd 2018- Mae'r plant wedi bod yn brysur yn paratoi at wahanol gystadlaethau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dymunwn bob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Gylch yn Ysgol Brynrefail dydd Sadwrn Chwefror 24ain.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun

Pêl Bonws Loteri Enillydd Mis Ionawr oedd Mrs Nani Evans, 26 Bryn Tirion, gyda rhif 16. Llongyfarchiadau!

Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth i'r Bêl Bonws bob mis, mae un rhif yn sbâr os oes gennych ddiddordeb i ymuno gyda'r siawns o ennill £30! Cysylltwch â Liz ar 01286 872421.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Chwefror a'r enillwyr yw: Marina Jones, Waen ac Yvonne Williams, Bwthyn Ty'n yr Ardd.

Dymunir atgoffa ffyddloniaid y Clwb Cant ei bod hi'n amser adnewyddu'r aelodaeth i Mr Leslie Larsen, Llygad yr Haul. Mae croeso cynnes i aelodau newydd am £6 y flwyddyn, gellir talu hefyd drwy Archeb Banc.

Cynhelir pnawn i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ddydd Iau, Mawrth 1af, am 2.00 o'r gloch gydag eitemau gan blant yr Ysgol ac aelodau'r Pwyllgor. Apelir am gefnogaeth gan rieni, aelodau'r teulu a ffrindiau. Croesewir chwi i ymuno â ni i ddathlu dydd ein Nawdd Sant pryd y darperir paned a bara brith a theisennau cri a chyfle i gymdeithasu am £2.

Rydym yn falch o ddeall bod Leslie a Phyllis yn well wedi triniaeth i'w llygaid yn ddiweddar.

Cynhelir 'Disgo'r Pasg' nos Iau, Mawrth 22ain, o 6.00 tan 7.30. Mynediad £1. Cŵn poeth am 50c. Croeso i chi wisgo gwisg ffansi.

Pwyllgor Eisteddfod Bentrif 2018 Cynhelir yr Eisteddfod nos Fercher, Gorffennaf 11. Cynhelir Pwyllgor ar nos Fercher, Ebrill 11eg am 7.00, i ddewis testunau. Ar Fai 23ain am 6.30 cynhelir Noson Goffi i rannu'r testunau. Edrychir ymlaen am Eisteddfod lwyddiannus eto eleni. Rydym mor falch fod plant y pentref yn cael y cyfleon i fagu hyder a chyfoethogi ein heniaith. Cychwynnir yr Ymarferion o 6 tan 7 o'r gloch ar nos Fercher, Mehefin 6ed.

Gwellhad Anfonir ein cofion anwylaf at Jean Roberts, Treflys, wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd a da deall ei bod yn gwella'n dda. Rydym yn siŵr bod Jean yn falch o weld ei hŵyr, Dion, sy'n aelod o'r grŵp Alffa, ynghyd ag Osian Land ar raglen 'Heno' nos Wener, Chwefror 16. Llongyferchir Dion ac Osian ar eu llwyddiant a dymunir pob llwyddiant eto i'r dyfodol.

Cydyndeimlir yn ddwys iawn â June a'r teulu, Bwthyn Cae Howell yn eu colled annisgwyl o golli Hugh, gŵr, tad, llysdad, brawd, brawd yng nghyfraith, taid a hen daid balch a hynny yn sydyn ar ei wyliau yn Lanzarote.

Talu am yr Eco Bydd Ann Ifans yn casglu tâl am yr Eco, sef £7 am y flwyddyn, o rŵan tan ddiwedd Mawrth. Diolchir i ffrindiau a thrigolion Bryn Eglwys a Llys y Gwynt am eu ffyddlondeb.

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**

3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS

FFON- (01286) 870202

Grantiau hyd at £20,000 ar gael i brynwyr tro cyntaf yng Ngwynedd

Mae Cyngor Gwynedd wedi lansio cynllun newydd sy'n rhoi cymorth o hyd at £20,000 i brynwyr tai tro cyntaf er mwyn talu am gostau adnewyddu ar eiddo sy'n wag.

Mae'r cynllun blaengar ar gael i drigolion Gwynedd ac i berchnogion tai gwag, ble mae'r eiddo wedi bod yn wag ers o leiaf chwe mis. Bydd yn cynorthwyo'r gwaith o ostwng y nifer o dai gwag yn y sir gan gynnig cymorth ariannol sylweddol i brynwyr tro cyntaf allu cwblhau costau adnewyddu.

Meddai'r Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai Cyngor Gwynedd:

"Mae prynu tŷ am y tro cyntaf yn gallu bod yn straen ariannol ar bobl. Mae'r cynllun yma yn gyfle gwych i roi cymorth i brynwyr tro cyntaf, wrth helpu i leihau'r nifer o dai gwag o fewn y sir.

"Mae nifer o gynlluniau wedi bod yn llwyddiannus yma yng Ngwynedd dros y blynyddoedd diwethaf i ddod ag eiddo gwag nôl i ddefnydd, ac mae tîm tai gwag y Cyngor yn parhau i weithio gyda nifer o berchnogion i ddod â mwy o dai yn ôl i ddefnydd. 'Rydym hefyd yn cynnig benthyciadau

i helpu prynwyr newydd i dalu eu blaendal.

"Yn syml, mae hwn yn gynllun lle mae pawb yn elwa, mae'n darparu cymorth ariannol i brynwyr y tro cyntaf yng Ngwynedd, yn gwella'r amgylchedd yn lleol drwy ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn ogystal â helpu perchnogion eiddo i adnewyddu eu tai gwag."

Bydd modd defnyddio'r grant i wneud gwaith trydanol ar gartref, i gynnal gwelliannau plymio neu wresogi, i osod cegin neu ystafell ymolchi newydd, neu i wneud gwelliannau i'r to, drysau neu ffenestri'r adeilad.

Er mwyn derbyn cymorth grant, rhaid i'r unigolyn ddefnyddio'r eiddo fel prif gartref. Os bydd eiddo yn cael ei werthu o fewn pum mlynedd o dderbyn grant, bydd angen ad-dalu'r grant yn rhannol.

Am wybodaeth bellach, neu i gyflwyno cais, cysylltwch â Thîm Tai Gwag Cyngor Gwynedd ar 01341 424 371, e-bostio: taigwag@gwynedd.llyw.cymru neu ymweld â www.gwynedd.llyw.cymru/taigwag



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

ECO'r
Wyddfa

**Cefnogwch ein
hysbysebwy**

**RHOSTIO
MOCHYN**

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

**AR GYFER
POB
ACHLYSUR**

**DEWCS MAE
O'N FLASUS**

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a

John Brynafon
LLANRUG

www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

ECO'r
Wyddfa

**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned
Llanrug

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar y 16 o Ionawr 2018.

Cyflymder traffig drwy Llanrug

Penderfynwyd gwneud cais i Gyngor Gwynedd ostwng uchafswm cyflymder o 40 milltir yr awr i 30 milltir yr awr o Pen Greuor.

Llwybrau cyhoeddus

Penderfynwyd cysylltu a'r Swyddog Llwybrau ynglyn a llwybr o Garreg Fran i fyny sy'n amhosibl i'w gerdded ar hyn o bryd.

Y Caeau chwarae

Adroddwyd fod holiaduron wedi eu dosbarthu o amgylch Cwm y Glo i holi am ddymuniadau'r preswylwyr o beth fyddent yn hoffi weld yn y Caeau Chwarae.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a cheisio syniadau ar pa offer fyddai orau yn cynnwys offer ar gyfer plant anabl. Penderfynwyd hefyd i blannu cennin pedr ar feysydd chwarae Nant y Glyn a Phwll Moelyn yn dilyn llwyddiant yr arferiad o'u plannu oddi amgylch y pentref.

Adroddiad gan y Cyngorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd

(a) Bysiau

Llawer o gwynion drwy y sir. Dim datrysiaid hyd yn hyn. Werth sylwi fod y Cyngor yn gwario £400 mil yn fwy ar y gwasanaeth yma, er fod na lai o fysus. Mae'r Aelod Seneddol ac Aelod y Cynulliad wedi cyfarfod a'r Prif Swyddog i geisio atebion.

(b) Setliad Grant ar gyfer Llywodraeth Leol yn 2018-19

Roedd y setliad i Wynedd yn ostyngiad o 0.1% (cyfartaledd Cymru yn 0.5%) a byddai cynnydd o 3.5% ar y Dreth Cyngor yn golygu byddai angen canfod arbedion o £4.2m.

Fydd y gwaith yn dechrau o'r flwyddyn ariannol nesafi ddarganfod mwy o arbedion ga y disgwylir y bydd setliad y flwyddyn nesaf yn waeth.

Twf yr economi

Mae Bwrdd Twf Gogledd Cymru wedi ei sefydlu, hefo'r chwe cyngor ar draws y gogledd yn aelodau

Cais cychwynol wedi ei wneud i lywodraethau Cymru a San Steffan am fuddsoddiad o £340miliwn o gyfalaf a £50miliwn referniw fel

rhan o'r Bargaen Twf Economaidd Rhanbarthol. Mae'r gwaith o lunio cynlluniau busnes wedi cychwyn a fyddai'n sail i drafodaethau gyda'r ddwy lywodraeth.

Yn lleol

Bydd y cynllun uwchraddio'r llwybr troed rhwng Cwm y Glo a Llanrug yn gychwyn ym mis Chwefror a fod gwaith cynllunio yn mynd ymlaen rwan ar y llwybr o Pontrug i Llanrug gyda'r gobaith o gychwyn ar y gwaith y flwyddyn ariannol nesaf os bydd arian ar gael. Y Fynwent.

Adroddwyd fod angen cychwyn ar y gwaith o ehangu'r fynwent oherwydd amcangyfrifir y byddai'n llawn o fewn tua 5 mlynedd. Nodwyd fod gan y Cyngor dir sy'n ochri a'r fynwent bresennol ond fod angen ei baratoi.

Penderfynwyd:

(a) Cael prisiau gan gontractwyr am ail godi'r wal ym mhen draw'r fynwent er mwyn ei ehangu yn ystod yr haf eleni.

(b) Codi ffioedd y fynwent ar gyfer 2018 / 2019

Ysbwriel

Adroddwyd fod pryder am ysbwriel yn y pentref ac y byddai'n fanteisiol creu ymgyrch gymunedol i dacleso'r pentref yn yr Haf. Penderfynwyd i gysylltu a Chyngor Gwynedd i holi os yw'r cynllun Trefi Taclus yn bodoli nawr ac os buasai bosib cael arian o'r cynllun hwnnw.

Penderfynwyd hefyd i gysylltu a Chyngor Gwynedd i holi am y posibilrwydd o gael bin rhwng y ffordd fawr a chroesffordd Pwll Moelyn.

Praesept ar gyfer 2018 / 2019

Penderfynwyd gosod y braesept ar gyfer 2018 / 2019 yn £42,000.

Cais Cynllunio

Newid defnydd o Gapel Bryngwyn, Llanrug yn uned wyliau ar osod ynghyd a gwelliannau i'r fynedfa a darparu cyfleusterau parcio

Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad i'r cais ond nodwyd fod y dyddiad cau yn anghywir yn y cais. Roedd y dyddiad wedi ei nodi fel 2010 ond Rhagfyr 2015 y cawyd y Capel. Nodwyd ymhellach fod bedd i ddau ger y capel ac nid oedd sôn am hynny yn y cais.

CYNGERDD MAWREDDOG YSGOL BRYNREFAIL

Bydd neuadd Ysgol Brynrefail dan ei sang nos Wener, Mawrth y 23ain wrth i gyn-ddisgyblion, disgyblion presennol a disgyblion y dyfodol ddod at eu gilydd i greu cyngerdd mawreddog.

Arwel Jones, neu Arwel Hogia'r Wyddfa fel mae'r rhan fwyaf yn y fro yn ei adnabod fydd yn arwain y noson a bydd yn cyflwyno llu o dalentau'r ardal. Yn rhannu llwyfan bydd y canwr o Ddeiniolen gynt, Elfed Morgan Morris, y grŵp Trio, y soprano Sioned Terry a'r canwr-gyfansoddwr Mei Emrys - cyn ddisgyblion sydd wedi troedio llwyfannau led led Cymru ond sy'n edrych 'mlaen i gael dod adre i droedio llwyfan Brynrefs unwaith eto. Un sy'n cychwyn ar lwybr ei yrfa ac sydd newydd adael yr ysgol am Rydychen ydi'r cerddor Math Roberts a bydd pawb yn edrych 'mlaen i'w glywed wedi tymor yn astudio yn un o golegau enwocaf Prydain. Bydd nifer o unigolion ifanc Ysgol Brynrefail hefyd yn perfformio ar y noson ynghyd â'r côr a'r band pres ac i gwblhau'r arlwy bydd sêr bach y dyfodol yn ein swyno wrth i blant ysgolion cynradd talgylch Ysgol Brynrefail uno mewn côr o leisiau bendigedig.

Ysgol Brynrefail ydy'r lle i fod mis yma – felly dewch i gefnogi ac i fwynhau talentau'r fro ar eu gorau.

Nos Wener, Mawrth 23ain. Drysau yn agor am 7:00yh a'r noson



Elfed Morgan Morris

i gychwyn am 7:30yh. Tocynnau oedolion yn £6, a phlant dan 16eg yn £3.

Tocynnau ar gael o Swyddfa Ysgol Brynrefail, Llanrug (01286 672 381), Siop Na Nôg, Caernarfon a Palas Print yng Nghaernarfon. Bydd elw'r noson yn mynd i gronfa Cyfeillion Ysgol Brynrefail.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Waunfawr

Presennol – Edgar Owen (Cadeirydd), Liz Daniel, Delyth Jones, Menna Jones, Cain Thomas, Doug Jones, Shoned Rees Griffith (cofnodi)

Ymddiheuriadau – Eurig Wyn, Cadi Jones, Sali Burns, Erddin Llwyd, Iwan Davies

Datganiad Buddiant - Dim

Derbyn Cofnodion 06.09..2017 – Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod yn rhai cywir.

Materion yn codi o'r Cofnodion -

Materion Caeathro –

1. Ffordd Osgoi Bontnewydd – Cyng EO yn mynychu y cyfarfodydd gyda Chyngor Gwynedd

2. Mainc Caeathro – Cyng SB yn mynd i drefnu i gael peintio y fainc.

3. Hen ffordd Caeathro i Bontnewydd – Cyng EO mewn trafodaethau â Chyngor Gwynedd.

4. Biniau Baw Ci – aros ymateb gan Gyngor Gwynedd.

Materion Waunfawr –

1. Biniau Baw Ci – Wedi derbyn ymateb CG, ond aros i'r biniau gael eu gosod.

2. Tacluso Pentref – wedi tacluso o amgylch y Ganolfan a'r maes parcio ger Ael y Bryn. I'w drefnu eto yn fuan.

3. Maes Parcio ger Ael y Bryn gwaith i gael ei wneud i'r maes parcio gan CCG.

4. Les tir tu ol i'r Ganolfan – i'w drafod ymhellach gyda'r Cyng ID. Cyngor Gwynedd wedi cysylltu ynglŷn â'r cae aml dywydd, holi a fyddai'r Cyngor Cymuned yn cymryd cyfrifoldeb. Angen mwy o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad.

5. Arwyddion cyflymder (fflachio) – I'w drafod ymhellach.

6. Cyflymder traffig drwy'r pentref – Cyngor Gwynedd wedi cynnal arolwg, rydym yn cyd-weithio â hwy i drefnu gostwng y cyflymder wrth yr ysgol i 20m.y.a. Cyngor Gwynedd i ymweld â'r Clwb ar ôl ysgol i drafod ymhellach gyda'r plant.

Gerddi Bach – Grŵp Cynefin yn y broses o fynd allan i dendr ar gyfer y gwaith adeiladu.

Safle Glyn Rhonwy – Dim mwy i'w adrodd ar hyn o bryd.

Adroddiadau

1. Lloches Bws- Gwaith o dacluso y wal yn y maes parcio dal angen ei wneud.

2. Y Fynwent Wedi cysylltu â perchennog tir wrth ymyl i ofyn a fyddai diddordeb gwerthu tir ar gyfer ymestyn y fynwent i'r dyfodol. Meinciau y fynwent yn y broses o gael eu hadnewyddu ac edrych ar y cwt.

c. Llwybrau Cyhoeddus – Dim i'w adrodd.

Materion Cynllunio - Dim i'w adrodd.

Mantolen 6 mis – Cynigiwyd fod y fantolen yn gywir.

Grantiau/Rhoddion – Trafodwyd ceisiadau am roddion a rhoddwyd rhodd i 6 o fudiadau lleol, Ysgol Waunfawr, Eco'r

Wyddfa, Cae Chwarae Caeathro, Clwb Pêl droed Waunfawr, Clwb Bowllo Waunfawr.

Archwiliad Allanol – Angen symud ymlaen yn fuan gyda gwefan y Cyngor Cymuned.

COFNODION TACHWEDD

Presennol – Cadi Jones (Cadeirydd), Liz Daniel, Menna Jones, Edgar Owen, Eurig Wyn, Iwan Davies, Sali Burns, Shoned Rees Griffith (cofnodi)

Ymddiheuriadau – Erddin Llwyd, Cain Thomas, Delyth Jones a Doug Jones

Datganiad Buddiant - Dim

Derbyn Cofnodion 18.10.2017 – Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod yn rhai cywir.

Materion yn codi o'r Cofnodion -

Materion Caeathro –

1. Ffordd Osgoi Bontnewydd – Cyng EO yn mynychu y cyfarfodydd gyda Cyngor Gwynedd

2. Mainc Caeathro – Cyng SB yn mynd i drefnu i gael peintio y fainc.

3. Hen ffordd Caeathro i Bontnewydd – Cyng EO mewn trafodaethau a Cyngor Gwynedd.

4. Biniau Baw Ci – aros ymateb gan Cyngor Gwynedd.

Materion Waunfawr –

1. Biniau Baw Ci – Aros Cyngor Gwynedd.

2. Tacluso Pentref – I drefnu eto amser y Pasg – helpa wyau Pasg i'r plant.

3. Maes Parcio ger Ael y Bryn -gwaith i gael ei wneud i'r maes parcio gan CCG.

4. Les tir tu ôl i'r Ganolfan – mynd i holi am brisiau ar gyfer trac beics. Cyng EO i gyfarfod â swyddog o Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r cae aml-dywydd a holi os oes grantiau ar gael ar gyfer ei adnewyddu.

5. Arwyddion cyflymder (fflachio) – I'w drafod ymhellach.

6. Cyflymder traffig drwy'r pentref – plant sy'n mynychu y Clwb ar ôl Ysgol i wneud poster ar gyfer newid cyflymder traffig wrth yr ysgol i 20 m.y.a. Diolch i'r Clwb.

Gerddi Bach – Grŵp Cynefin yn y broses o fynd allan i dendr ar gyfer y gwaith adeiladu. Cyngor Cymuned yn holi am brisiau ar gyfer y cae chwarae.

Safle Glyn Rhonwy – Dim mwy i'w adrodd ar hyn o bryd.

Adroddiadau

1. Lloches Bws- Gwaith o dacluso y wal yn y maes parcio dal angen ei wneud.

2. Y Fynwent- Wedi cysylltu â perchennog tir wrth ymyl i ofyn a fyddai diddordeb gwerthu tir ar gyfer ymestyn y fynwent i'r dyfodol. Meinciau wedi cael eu hadnewyddu. Wedi dod i benderfyniad i ddymchwel y cwt oherwydd diogelwch. Aros prisiau i wneud y gwaith.


c. Llwybrau Cyhoeddus – Dim i'w adrodd.

Materion Cynllunio- Dim i'w adrodd.

Coeden Nadolig – cafwyd noson o ganu carolau a goleuo y goeden Nadolig – 5.12.17. Bydd y casgliad eleni yn mynd tuag at Diffib i'r pentref. Roedd y Dr Huw Gwilym a Dr Esyllt Llwyd

yno i sgwrsio am y Diffib a'r Ganolfan Iechyd newydd i'r pentref.

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned
Llanberis

COFNODION CYFARFOD MIS RHAGFYR 2017:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, ar nos Fercher y 13eg o Ragfyr, 2017 am 7.00 y.h.

1 hunaniaith - CYFLWYNIAD GAN IFAN LLEWELYN JONES (Swyddog Datblygu):

Eglurwyd fod hunaniaith, mewn cysylltiad a Chyngor Gwynedd (CG), yn debyg i Fenter Iaith ond gan fod canran uwch o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd y bwriad yma oedd ysgogi y defnydd o'r Gymraeg mewn digwyddiadau a gweithgareddau yn hytrach na chynnal digwyddiadau Cymraeg yn benodol. Ysgogi a dylanwadu oedd amcan y grwp, ceisio symbylu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio bod cywilydd o wneud hynny. Roedd i Gynghorau Bro a Thref le amlwg yn hyn ac awgrymwyd y gallai amod iaith fod ynghlwm, er enghraifft, wrth rodd neu grant oddi wrth gynghorau. Awgrymwyd bod lle i gynghorau gynnig cymorth gyda chyfieithu, dyweder; neu i baratoi deunyddiau dwyieithog ac i annog cydweithio o ran defnyddio'r iaith a'i gwneud mor amlwg a phosibl.

Soniwyd am wefannau cymdeithasol a'r angen i gael y Gymraeg yn amlwg ar rheini yn hytrach na defnyddio Saesneg yn unig. Os yw'r iaith i fyw mae'n rhaid iddi fod neu ddod yn rhan naturiol o fywyd pob dydd, yn rhan annatod ohonno ac yn weladwy a chlywadwy. Adroddwyd fod cynllun peilot gyda cyfieithwyr proffesiynol wedi bod ar gael eleni, dylid holi a fydd hynny ar gael eto, ac os bydd ei ddefnyddio. Mewn gair neu ddau, cryfhau a chadarnhau y Gymraeg oedd nodd hunaniaith.

Ar ddiwedd y cyflwyniad cafwyd nifer o sylwadau, cwestiynau a thrafodaeth fer. Roedd cytundeb y dylai'r Cyngor wneud yr hyn a all i hybu'r iaith Gymraeg ac i annog eraill i wneud hynny hefyd.

2 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Nicola Brown, Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Iwan Harding, Bethan Holding, Heather Lyn Jones, Kevin Morris Jones (Cynghorydd Sirol), Helen Sharp, Trystan Thomas. Ward Peris: Iola Owen.

H e f y d yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Aneuryn Jones, Gwenda Roberts.

3 DATGAN BUDDIANT:

Dim penodol ond nodwyd fod gan amryw o'r aelodau gysylltiad a nifer o gymdeithasau a wnaeth gais i'r gronfa cymorthdaliadau.

4 CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 15fed o Dachwedd, 2017 fel rhai cywir.

5 MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Grwp Datblygu Llanberis:

Cafwyd nodyn yn diolch am y goleuadau Nadolig a'r goeden. Hefyd soniwyd fod y Grwp ar fin datblygu Gwefan newydd ac yn holi tybed a oedd gan y Cyngor ddiddordeb cael tudalennau arni hi. Wedi trafodaeth hir

ac ystyried fod gwahoddiad tebyg wedi dod a'i wrthod oddi wrth Hwb Eryri penderfynwyd fod angen i'r Cyngor gael gwefan y medrir ei rheoli a gwefan a fyddai'n goroesi beth bynnag fyddai'n digwydd i'r mudiadau eraill.

Cyn penderfynu yn derfynol cynigiwyd cynnal cyfarfod gyda cynrychiolwyr y Grwp a Hwb Eryri yn y Flwyddyn Newydd a dod ag adroddiad yn ôl i gyfarfod nesaf y Cyngor yn mis Ionawr.

2. Coed Nadolig:

Mae'r coed wedi'u gosod a'u goleuo, ac wedi derbyn canmoliaeth. Diolch i IO am drefnu un Nantperis a'r canu carolau fu yno ac i Emllyn Baylis am ei barodrwydd i gynorthwyo BH, KMJ, RhaG a'r Clerc i osod ac addurno un Llanberis. Cytunwyd ag awgrym y Clerc fod angen ail focsio'r cyflenwad trydan ger y goeden yn Llanberis

3. Cae UEFA:

Diolch i GE am osod y rhwydi newydd gyda cymorth BG, gofalwr y cae a'r Ganolfan.

4. Trafnidiaeth ag ati:

Cafwyd cadarnhad y bydd swyddogion o dair o adrannau CG yn dod i gyfarfod nesaf y Cyngor yn Ionawr. Disgwylir cynrychiolwyr o'r Adran Amgylchedd, yr Adran Economi a Chymuned yn ogystal a Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Mae disgwyl presenoldeb pedwar swyddog, i gyd yn benaethiaid, Uwch Reolwyr neu Uwch Swyddogion.

5. Cae Chwarae Nantperis:

Mae'r cae wedi ei drin.

6. Coflech Wilbert Lloyd Roberts:

Derbyniwyd llythyr oddi wrth ferched Wilbert Lloyd Roberts yn diolch yn wresog am y goflech a'r trefniadau i'w dadorchuddio a wnaed gan Ken Jones ysgrifennydd Y Ganolfan.

6 MATERION ERAILL:

1. Mainc ger Cysgodfan Nantperis:

Cytunwyd ar fainc fetel werdd gyda cefn ar gyfer Nantperis.

2. Codi arwyddion:

Awgrymwyd fod pawb yn cysylltu a NB a TT gydag awgrymiadau ynglyn â lleoliadau poster i 'Dim sbwriel' a 'Dim Baw Ci' a baratowyd gan blant y pentref.

3. Halen a Graean:

Cafwyd cais oddi wrth Glwb Mynydd Glannau Mersi (Merseyside Mountaineering Club) am flwch dal graean

a halen ger Cae'r Fran ar y ffordd i Fwlch y Groes lle mae'r Clwb yn denantiaid. Roedd un yn arfer bod yno ar waelod

y rhiw yn ôl y llythyrwr, ac roedd yn awyddus i'r Cyngor roi un yn ei le. Cyfrifoldeb CG fu biniau halen, er mai y Cyngor hwn bellach sy'n gyfrifol am dalu i CG am eu llenwi. Penderfynwyd na ellid cyfiawnhau rhoi bin yn lle hwn

ac i gyfeirio'r mater at CG.

Yn yr un llythyr mae son am nifer o geir yn parcio ar ben ucha'r ffordd ger Maen-llwyd lle mae aelodau'r Clwb ac eraill wedi bod yn defnyddio'r gofod i droi'n ôl yn eu ceir. Dywedir mai ymwelwyr mewn eiddo gerllaw sydd

ar fai yn defnyddio'r lle ac atal eraill rhag cael lle i droi. Gofynnwyd i'r Clerc edrych ar hyn a gweld oes angen codi arwydd i ofyn i bobl fod yn ystyrlon wrth barcio a sicrhau bod lle i geir droi'n ôl.

4. Arwyddfwrd Ychwanegol:

Roedd cais wedi dod am symud yr arwyddfwrd sydd ar dalcen y gysgodfan ger Maes Padarn i le amlycach.

Penderfynwyd prynu hysbysfwrd arall a'i leoli o gwmpas toiledau Maes Padarn. Nodwyd swm o arian

ar gyfer ei brynu.

5. Lampau Plwy:

Adroddodd y Clerc iddo roi gwybod i CG fod dwy lamp ar y ffordd fawr yn ddiffygiol yn Nantucha' rhwng Gwastadnant a Bryn Fforch ac fod polyn un o'r lampau yn gogwyddo'n ddrwg.

6. Enwau'r Gofeb:

Derbyniwyd awgrym y Clerc i alw cyfarfod yn nechrau'r flwyddyn i geisio olrhain hanes y dynion a gollwyd yn y Rhyfel Mawr ganrif yn ôl sydd a'u henwau ar Y Gofeb, ac o bosibl cyhoeddi pamffledyn.

7 GOHEBIAETH:

1. Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol:

Daeth llythyr yn dweud bod y Panel yn ystyried awgrymu cynabyddiaeth ariannol i gynghorwyr cymunedol.

Roedd y dyddiad cau i'r ymgynghoriad wedi bod a cyhoeddir yr adroddiad terfynol yn Chwefror 2018.

8 CYNLLUNIO:

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

• NP3/15/124L - gosod cynhwysydd dur 20tr x 8tr x 8tr i gadw offer a chyfarpar sy'n gysylltiedig a menter coed/coedwig - Coed Hen Doeth (sic), Pentre Castell, Llanberis - Dim sylw, (ond holwyd o ble daeth yr enw a beth yw ei ystyr).

• Dywedodd NB bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ynglyn â dyluniad y tai newydd ger Ffordd Ty Du, Llanberis gan Quarry View Developments Ltd. Y cwestiwn ar y poster ydi 'Is this house design too modern for Llanberis?'

Gellir ateb hyn trwy anfon ebost at qvhomes8@gmail.com neu ar lein yn y fan yma:

<https://surveyhero.com/c/e2dbdc01>

9 GRANTIAU:

Derbyniwyd nifer o geisiadau a phenderfynwyd fel a ganlyn:

Cymdeithas Undebol Llanberis	£300;
Ras Ryngwladol yr Wyddfa (Ras y Plant)	£250;
Clwb Peldroed Llanberis	£500;
Geidiaid ag ati	£400;
Pentref Taclus Llanberis	£500;
Grwp Datblygu Llanberis	£500;
Eisteddfod Genedlaethol Cymru	£100;
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd	£100;
Cylch Meithrin Llanberis	£800;
Eco'r Wyddfa	£600;
Cyfeillion Cae'r Ddôl	£200;

(Roedd Y Festri wedi derbyn £400 yn gynharach eleni).

Bydd cais Hwb Eryri yn cael ei ystyried yn y flwyddyn newydd.



Ar ben arall i'r lein

A ninnau ar drothwy tymor arall does ond un peth sy'n dal sylw pob 'sgotwr dwi'n siarad â nhw, a hynny yw be sy'n digwydd gyda'r bwriad i'w gwneud yn anghyfreithlon cadw eog a brithyll môr. Fel yr eglurais yn y rhifyn diwethaf, er bod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi penderfynu mynd i lawr y llwybr dadleuol yma, er eu clochdar mae'n rhaid iddynt drosglwyddo'r mater am sêl bendith Lesley Griffiths, ysgrifennydd cabinet y Cynulliad dros ynni a materion gwledig. Mae nifer fawr wedi rhoi drosodd eu pryderon o weithredu ar y fath cynigion. Yr ateb rydym wedi'i gael yw ei bod yn methu trafod y mater â ni oherwydd nad yw wedi derbyn dim gan CNC. Drwy ymholiad pellach gan Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru mae'n amlygu ei hun na fydd dim yn dod gan y corff am o leiaf ddau fis arall. Wedyn bydd troi a throsi am benderfyniad yng Nghaerdydd 'na, a dyna ni o bosib tua Mehefin cyn gwybod be sydd o'n blaenau.

Tipyn o lusgo traed yn wir gan fod y tymor yn dechrau ar 3ydd o Fawrth a bod y rhan fwyaf o 'sgotwrs yn codi ei trwydded flynyddol yr amser yma. Cost trwydded brithyll ydi £30 neu £20 i ni y rhai hyn! Ond i 'sgotwrs eog brithyll môr y gost yw £82 neu £54 i'r oeddrannus! Mae'r rhan fwyaf ohonom yn codi'r drwydded eog ar ddechrau'r flwyddyn. Ond y tebygrwydd, yn ôl be dwi'n glywed ydi, fod neb bron am wastraffu arian cyn gwybod be sydd sy'n digwydd.

Clywais heddiw am lythyr arall sydd wedi ei anfon at Lesley Griffiths ar ran yr Ymddiriedolaeth Afonydd gyda chynigion fod yr Ymddiriedolaeth a Chymdeithasau Cymru yn cymryd drosodd llawer o ddyletswyddau mae'r CNC i fod i'w cyflawni, ond oherwydd toriadau mae yn waith yn awr sydd ddim yn cael ei wneud. Buasai cydweithio fel hyn yn rhyddhau llawer o bwysau oddi a'r ysgwyddau swyddogion CNC a'u gadael i ganolbwyntio ar faterion o'r ochr dechnegol. Dyma fater 'rydym ni fel Cymdeithas wedi bod yn ei bregethu ers blynyddoedd lawer, ond neb eisiau gwybod. Efallai yn awr y gwelith rhywun yn y Bae 'na synnwyr yn y math yma o gydweithio. Neu mae gennyf ofn ein bod yn edrych ar golli nabod ar y pysgota 'rydym ni yn y fro yma wedi ymfalchio ynddo ers dros ganrif a hanner.

'Rwyf wedi bod ynghlwm â'r gymdeithas bysgota ers 1979 a, dros y blynyddoedd, mae criw bach ohonom wedi bod wrthi yn ceisio sicrhau bod llawer o be sydd yn gwneud 'sgota mor unigryw yn y fro ddim yn mynd ar chwâl, Neu'n waeth byth, yn angof. Heblaw y celfi sydd o gwmpas y lle, yn enwedig yma gen i ble mae'r lle 'ma fel amgueddfa o daclau, dogfennau, llythyrau a hanesion. Be sy'n gwneud hyn yn amhrisiadwy, wel yn fy meddwl bach i o leiaf, yw'r pysgotwyr a wnaeth hyn i gyd yn bosib. Dwi wedi cyfeirio dros y blynyddoedd at lythyrau Robin Rowlands, Llanberis. Cofnodion o blu i lynnoedd Llanberis a'r afon Seiont o 1920. Plu Freddie Bee ac, yn ddiweddarach, Norman Dooley. Mae plu eog Dooley wedi eu fframio yn mynd am arian sylweddol heddiw, mae tair ffrâm o'i blu yma!. Bob Jones, Brynrefail, gambliar y torgoch ac atgofion o 'sgota gyda Bob gan Closs a Les Parry. Mae yma lond tun 'Craven A' o blu eog gwreiddiol Bob, diolch eto i Closs. Copiau hefyd o ddyddiaduron Griff Hughes, Chwilog, a anfonwyd yma drwy garedigrwydd ei fab Gwilym. 'Roedd Griff yn ei swydd fel ciper afon wedi cofnodi'n fanwl daliadau eog a brithyll môr ar ein afonydd am bron i bum mlynedd ar hugain o'r 1960au. Drwy ei darllen mae yn eich taro fel ergyd sut mae'r awdurdodau wedi gadael pethau ddirywio mor gythreulig a neb yn malio dim.

Mae llawer iawn o hyn, wrth gwrs, ar gof llawer i un, ond mae rhai wedi mynd yn angof gyda llif y blynyddoedd, ond weithiau, drwy rhyw amgylchiad neu'i gilydd, mae mwy o wybodaeth ar bethau o'r fath yn dod i'r golwg. Ac fel hyn y bu pethau gyda ni fel teulu. Bron i ddwy flynedd yn ôl fe ddaeth un o'r hogiau acw yn berchennog ar 'Llwyn Iorwg', Clwt y Bont. I mi, fel un o Ddeiniolen, 'roeddwn yn adnabod y lle fel tŷ gweinidog Capel Ysgoldy. 'Roeddwn yn gwybod fod 'Alafon', sef y Parch Owen



G. Owen wedi bod rhyw dro yn fugail ar yr enwad, ond dyna cyn belled ac roedd fy ngwybodaeth yn ymestyn. Drwy ofyn am wybodaeth gan ddarllenwyr yr Eco rai misoedd yn ôl, daeth y wybodaeth a'm cyfeiriodd at ddau lyfr sef Cathlau'r Bore a'r Prydnawn (Alafon) a Cofiant a Gweithiau y Parch O.G. Owen gan y Parch R.H. Watkins, ei ddilynydd yng ngofalaeth Ysgoldy, O'r llyfr yma daeth i'm sylw bod 'Alafon' yn bysgotwr brwd. Sgwn i a oes rhywun yn gwybod mwy am hyn? Dyma ddywedwyd amdano, "A'r unig waith yr ymhyfrydai ynddo, o'r tu allan i'w fyfyrgeall, oedd pysgota a thrin yr ardd. Roedd hefyd yn berson llawn tynerwch a charedigrwydd a mae llond gwlad o hanesion difyr amdano yn porthi'r adar ar dywydd caled y gaeaf, ac yn symud pryfaid genwair ac ymlusgiad o'r fath oddi ar y ffordd, rhag droed anifail neu olwyn eu llethu i farwolaeth."

Sut mae hun i gyd yn disgyn i mewn i elfen pysgotwr tybed, yn enwedig gan mai pwrpas genweirio, wel i mi ynde, ydi i gadw a gallu rhannu rhywychydig yma ac acw at fwydo'r badell. Wel dyma mae R.H. Watkins yn ddweud ymhellach, "Rhyfeddais ganwaith at ei ddibristod o fywyd pysgodyn, ac yntau mor dyner o bob bywyd arall. Rhedai ei galon allan mewn cân o gydymdeimlad â'r 'Brongoch Briw', ond lladdai frithyll gyda chydwybod dawel." Felly mae'n amlwg bod cegin 'Llwyn Iorwg' a festri'r Ysgoldy dros ganrif yn ôl yn gorlifo a arogl bendigedig brithyll yn ffrio. Felly am y mis yma dyma i chi un o gerddi 'Alafon sef 'Llyn y Gadair'.

Llyn y Gadair

I gael y meddwl caeth yn rhydd,
A'r galon brudd i gywair,
Effeithiol iawn yw diwrnod gwyn
Ar hyfryd Llyn y Gadair.
Nid yw ei faint, nid yw ei liw,
Yn cymell i'w ymylon;
Ond nid oes lonnach llyn i'w gael,
Na'r un mwy hael ei galon.

I'w lonni, ar y Gadair fawr
Y fore wawr orphwysa;
A gwel'd ei hunan yn ei ddrych
Bob dydd ga'r uchel Wyddfa.
Ei fyrdd melynfrych bysg o'i fewn
Yn hoenus ewn chwaraeant
Ac weithiau i'r pysgotwr tlawd
Eu nwyfus wawd ddangosant.

Cael awel rydd ar ddiwrnod llon
I ddeffro'i donnau lawer,
Cal llithro dros ei fynwes fwyn
Heb gofio cwyn na phryder;
Cael cwmni cyfaill cerddgar fryd,
A medrus gyda'i enwair -
Mor ddifyr, ddifyr ydyw hyn
Ar hyfryd Llyn y Gadair!

Mi fyddaf, mis nesaf, yn cyfeirio eto at 'Alafon' gyda apêl am wybodaeth ar faterion sydd wedi dal fy sylw yn ei gofiant. Dim am bysgota, ond am ei fod yn bysgotwr.

Huw Price Hughes



Torgoch Llyn Padarn

Bu Dr Robin Parry mewn cysylltiad gyda'r ysgol yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod ein disgyblion yn rhan o gynllun i geisio adfywio y niferoedd o'r pysgodyn Torgoch yn Llyn Padarn. Daeth tanc arbennig i'r ysgol a wyau Torgoch (diolch i Dr Parry am fynd mor bell i'w casglu!) Yr oedd y plant wrth eu boddau yn cael astudio yr wyau a gweld llygaid y pysgod ifanc. Roedd cyffro mawr wrth ddisgwyl gweld yr wyau yn datblygu. Wedi

tair wythnos yng ngofal tyner y disgyblion, roedd hi'n hen bryd mynd a torgoch Ysgol Dolbadarn i'w cartef newydd. Er gwaetha prysurdeb, eira, colli dyddiau ysgol a tywydd sydd yn siwtio pysgod yn well na ni, bu criw dewr yn rhyddhau'r rhai olaf i Lyn Padarn. Roedd rhai o'r pysgod yn gyndyn mynd o'r bwced! Mae'r plant (a'r staff) wedi mwynhau a diolch i bawb am gefnogi. Aeth y pysgod i lawr a chladdu eu hunain yn y gro mân yn syth. Pob hwyl iddynt.

Gala Nofio Yr Urdd yng Nghaerdydd

Bu i dim o bedwar o ddisgyblion Blwyddyn 4 yn y gala nofio yng Nghaerdydd yn ddiweddar yn nofio ras gyfnewid dull rhydd. Yr oedd yn brofiad arbennig iddynt- da iawn chi fechgyn!

Cystadleuaeth Sportshall

Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn cystadlu yn y gystadleuaeth

Sportshall yn ddiweddar- da iawn wir i bawb a fu'n cystadlu a diolch i'r staff am eich hyfforddi. Mae athletwyr da iawn gennym ym mhen uchaf yr ysgol a braf yw gweld eu hyder yn datblygu drwy gystadlaethau fel hyn.

Galeri: Wy, Chips a Nain

Bu disgyblion yr ysgol i'r Galeri yn ddiweddar er mwyn gweld y perfformiad

arbennig hwn sydd yn addysgu disgyblion am effeithiau dementia ar yr henoed. Yr oedd yn berfformiad arbennig a'r disgyblion wedi mwynhau yn arw.

Diolglewch y We

Bu disgyblion yr ysgol yn dysgu negeseuon pwysig am sut i ddefnyddio'r rhyngwrdd yn ddiogel yn ddiweddar. Mae pawb bellach yn hollol

ymwybodol o sut i gadw cyfrineiriau yn ddiogel a pheidio a chysylltu gyda dieithriaid ar y we.

Ymweliad Ysgol Brynrefail

Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Celf ac i ddod i adnbaod staff a disgyblion yr ysgol. Diolch i staff Brynrefail am y profiad.

Eglwys Sant Padarn Dathlu Gŵyl Ddewi

Dewch i ymuno â ni am Ginio Gŵyl Dewi yn Eglwys Sant Padarn dydd Sadwrn, Mawrth y 3ydd, rhwng 12 a 2 y prynhawn. Cawl Cennin, Bara Brith a Teisen Gri am £3.50 i Oedolion a £2 i Blant **Y Gymdeithas Undebol** Ar y 6ed o Fawrth, am 7 o'r gloch, edrychwn ymlaen at sgwrs gan Mr Dafydd Ellis, Brynrefail, am "George M.L. Davies", Pererin Heddwch.

Byddwn yn derbyn enwau'r rhai sy'n dod i'r Cinio Blynnyddol, eu dewisiad o fwyd a'r arian am y pryd yn ystod y noson. Bydd paned a bisgedi i ddilyn.

Llongyfarchiadau mawr i Tomos Mabon, mab Teleri a'r diweddar Alan Pritchard, 4 Cambrian Teras, ar ennill dwy Fedal Aur mewn Gala Nofio yn Sheffield hefo Tîm Nofio Gwynedd. Mae Tomos, sydd yn 12eg oed, yn aelod o Glwb Nofio Caernarfon ers 3 mlynedd.

Pentref Taclus Mi fydd y Criw Casglu yn cyfarfod am 10 o'r gloch bore Sul, y 4ydd o Fawrth, i dacluso Llanberis. Mae'r criw yn rhan o Cadwch Gymru'n Daclus a Gwanwyn Glan Cymru... cewch fwy o wybodaeth ar wefan Cadwch Gymru'n Daclus. Mi fydd y criw yn cyfarfod wedyn ar y 25ain o Fawrth a phob bore Sul o'r 4ydd o Ebrill ymlaen.

Gwasanaethau Capel Coch

Mawrth 4ydd: 10yb Mr Corey Hampton

11eg: 10yb a Syh Y Gweinidog

18ed: 10yb Parch. Cath Williams; Syh Parti Bythol Wyrdd

25ain: 10.30yb Oedfa Deulu

Un funud fach ...

ELIZABETH MARIAN

Doedd hi ddim yn arbennig o dda. A deud y gwir, roedd hi'n drybeilig o wael yn y 'sgïo dull rhydd, hanner pibell' yng Ngemau Olympaidd y Gaeaf yn Ne Corea. Peidiwch â disgwyl i mi ddechrau egluro manylion y gamp honno. Digon yw dweud fod rhagor iddi nag a lwyddodd Elizabeth Marian Swaney i'w feistrolï; mwy o neidio a mwy o driciau nag a roddodd hi gynnig arnynt erioed. Y cwbl a wnaeth Elizabeth oedd sgïo'n hamddenol (yn y 'dull rhydd' mae'n debyg!) o naill ochr yr hanner bibell i'r llall. Ei llwyddiant mawr oedd aros ar ei thraed (neu ar ei dwy sgi)!

Roedd Elizabeth yn benderfynol o gystadlu yn y Gemau, er gwaethaf ei diffyg dawn. Ond gwelodd yr Americanes ei chyfle, a manteisiodd arno trwy gynrychioli gwlad enedigol ei thaid a'i nain. Gan nad oedd neb yn cynrychioli Hwngari yn yr hanner pibell (dull rhydd) neidiodd Elizabeth i'r bwlch (yr unig naid a wnaeth!). A thrwy gymryd rhan (ac aros ar ei thraed a chwblhau'r cwrs) mewn digon o gystadlaethau dros y flwyddyn ddiwethaf llwyddodd i ennill y pwyntiau angenrheidiol i gael cystadlu yn y Gemau Olympaidd. Iddi hi, cael cymryd rhan oedd y peth mawr a doedd ots o gwbl mai hi fyddai'r salaf yn y gystadleuaeth. Doedd hi'n disgwyl dim gwahanol a hithau gymaint gwaeth na'r cystadleuwyr eraill. Ond fe arhosodd ar ei thraed yn y Gemau Olympaidd a gwireddu ei breuddwyd fawr.

Nid yw Elizabeth Marian yn eithriad: mae bod yn y ras yn ddigon i lawer o bobl sy'n gwybod na fyddan nhw fyth ar y blaen. Ac ar un ystyr, mae bod yn y ras yn ddigon i'r Cristion. Mae'r Testament Newydd yn cymharu'r bywyd Cristnogol â ras y mae'r athletwr yn ei rhedeg. Mae angen rhedeg yn ôl y rheolau, a gwneud ein gorau; ond wedi dweud hynny, nid yw pawb yn disgleirio yn y ras hon, a dal ati i redeg yn ddigon blêr, gan faglu'n aml yw hanes llawer ohonom. Ond yn y pen draw, bod yn y ras sydd bwysig, yn rhan o deulu'r Ffydd, yn etifedd holl freintiau Efengyl Iesu Grist er ein holl feiau a'n gwendidau. A diolch am hynny, dyna ran pob un sy'n credu yn yr Arglwydd Iesu, pob un a wnaed yn blentyn i Dduw trwy ffydd ynddo ef a thrwy ras Duw.

Mae'n debyg nad oedd Elizabeth Swaney yn haeddu bod yn y Gemau Olympaidd. Y gwir plaen yw nad oedd yn ddigon da i fod yno. Ond roedd hi yno am iddi, ar un ystyr, gael ei mabwysiadu yn un o bobl Hwngari. Ac y mae pob Cristion yn rhan o deulu Duw trwy fabwysiad (fel dywed Paul yn Galatiaid 4:5), ac nid yn ei haeddiant ei hunan. Gras Duw a'n gosododd yn y ras, a gras Duw a fydd yn ein cadw ynddi i'r diwedd.

JOHN PRITCHARD

Chwaraeon

DYMCHWEL Y GAER

Hyd at fis Chwefror bu Eithin Duon yn gaer go iawn a'r record gartref yn danfon Llanrug ymysg ceffylau blaen y gynghrair. Hefyd roedd dwy gêm fawr yn y Cwpanau. O gofio record dda Llanrug yng Nghwpan Cookson yn y tymhorau olaf roeddent yn ffyddiog o wynebu y Bermo ar Eithin Duon yn y rownd gyn-derfynol. Er sawl cyfle i'r tîm cartref y Bermo aeth a hi o 2-0.

Yna daeth y gêm gartref yn erbyn y Maes Glas yn rownd yr wyth olaf o Dlws C.P. Cymru. Diolch i ddau ddiwrnod o wynt sychodd y cae – er dal yn drwm – ar gyfer y gêm. Barn y dorf oedd mae siomedig iawn oedd perfformiad Llanrug ar y diwrnod. Sylwyd fod tipyn o brofiad wedi ei gadael ar y fainc, ar ddiwrnod ble roedd ymroddiad a chalon yn sicr o fod yn elfennau pwysig. Siomedig hefyd oedd tactegau, gyda'r undonnedd o geisio pwmpio peli hir at ymosodwr unig, neu ceisio pasio trwy fwd ganol cae. Gwahanol oedd tactegau Maesglas, gan adael dau asgellwr dawnus allan ar yr esgyll oedd yn rhoddi targed 'allan' greadigol i'r tîm.

Llanrug yn chwarae hefo'r gwynt a'r llethr oedd gryfaf yn y 10 munud cyntaf ond ni ddeuai'r gôl. Yn raddol daeth ganol cae yr ymwelwyr yn gryfach gan fwydo'r ddau asgellwr dawnus. Ar y cyfnod yma o'r gêm roedd y ddau dîm yn euog o 'bêl olaf' wastraffus.


Wedi hanner awr gôl i'r Maesglas. Llacrwydd ar ochr dde amddiffyn Llanrug a'r gôl –geidwad Dylan Roberts yn ildio cic o'r smotyn. 0 – 1. Yna o fewn 10 munud cic o'r smotyn arall, eto Dylan yn rhwystro . 0 -2 ar yr hanner. Yn sicr roedd mwy o awch cystadlu yn nhim Maes Glas, a diffyg cyfathrebu yn amharu ar gyd-chwarae Llanrug. Ar yr awr trydedd gôl i'r ymwelwyr gyda'r canolwr yn rhwydo'n hawdd o 10 llath. Dod a'r eilyddion ymlaen, ac yn sydyn llais Eifion Williams yn trefnu ac annog. Yn ôl daeth Llanrug a foli wych Alan Owen o 15 llath yn rhoi gobaith. 1 – 3. O fewn pum munud – seren y gêm - asgellwr chwith y Maes Glas Conor Hughes yn dawnsio heibio tri amddiffynwr a taro'r bêl i gornel y rhwyd. O gofio cyflwr y maes, gôl llawn dawn. Aeth yn waeth wedi 85 munud. Cic rydd i'r Maes Glas ar gornel y blwch cosbi, a Danny Calvert yn crymanu'r bêl i dô'r rhwyd. Gyda'i ddwy gic gosb hatric i ennill gêm. 1 – 5. Daeth gôl hwyr peniad Marvin Pritchard , ond ffarwelio â'r tlws fydd hi eleni i Lanrug. Y gynghrair amdani felly, gan gofio fod y clwb wedi gwneud cais i symud fyny'r pyramid os daw cyfle. Bydd angen cryn ymdrech ar ac oddi-ar y cae i wireddu'r freuddwyd yma. Amser a ddengys. Gair i nodi perfformiad y tri swyddog ifanc. Cafwyd cysondeb yn nyfarniadau y dyfarnwr Aaron Wyn Jones o Ddeganwy. Dim taflu cardiau fel confetti, gadael y gêm lifo a dogn dda o synnwyr cyffredin. Yn 22 oed, mae eisioes yn limanwr yng Nghyngrair Genedlaethol Cymru, ac yn sicr dyma un i'w feithrin yn y dyfodol.



grid76
graphic design

North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | **A9** | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673



Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

Tlws Arthur Bebbington



Llongyfarchiadau i Arwel Lewis o Fethel am ennill Tlws Arthur Bebbington am ei gyfraniad i Gynghrair Traws-Gwlad Gogledd Cymru. Mae wedi cystadlu mewn dros gant o gystadleuthau traws-gwlad dros y blynyddoedd, wedi bod yn gynrychiolydd ar sawl pwyllgor cenedlaethol a rhanbarthol, ac wedi cynrychioli Clwb Rhedwyr Eryri, Gogledd Cymru a Chymru mewn rasys traws-gwlad. Mae hefyd yn ddyfarnwr mewn cystadleuthau traws-gwlad. Dros y blynyddoedd, bu wastad yn annog unigolion i gystadlu, trefnu bws i gario cystadleuwyr i wahanol rasys – a hyd yn oed ddreifio'r bws! Mae ei ymroddiad dros nifer helaeth o flynyddoedd yn llawn haeddu'r gydnabyddiaeth.

YMATEB

Llythyr a dderbyniais gan un o ddarlennwyr cyson yr Eco, sef Cecil Jones o Lanberis yn wreiddiol ond un o'r gweithwyr ddiflino dros glwb Conwy dros gyfnod o sawl tymor. Dyn ffwtbol go iawn yw Cecil. Mae yn fy nghymeryd i dasg yn ymwneud â fy erthygl 'Ai Giggs yw'r ateb?' yn y rhifyn flaenorol. Wrth ddiolch iddo am ymateb, dyfynaf ei lythyr.

"Parthed dy erthygl uchod yn yr Eco. Yn anffodus, nid wyt yn gywir wrth ateb dy gwestiwn trwy ddweud: 'Amau ei deyrngarwch unigolyn a ddewisodd gynrychioli y Gymru anffasiynol o flaen cyfleoedd llachar Lloegr.' Yn ôl y rheolau ar y pryd nid oedd y dewis gan Giggs i chwarae dros Loegr."

Ydych chi'n cytuno â'r hybarch Cecil? Buaswn wrth fy modd yn derbyn ymateb i'r golofn pob mis. Rwyn siwr fy mod yn corddi rhai ohonoch yn fisol.

Gyda llaw Cec. Mae gen ti flaenwr draw yng nghlwb Conwy -Corrig Mcgonigle – sy'n sgorio goliau fel pys, neu Harry Kane. Rwyn siwr dy fod yn ymfalchio bod talent ifanc – Ifan Masoor – yn cyflawni'r un dasg i Lanberis.

ADVANCED
VEHICLE
WORKSHOP

Arbenigwyr mewn ceir VW,
Audi, Seat, Skoda & Porche

BOSCH
Service

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which?
Trusted trader

01286 673559

WOT TESTING STATION

Car Service
For everything your car needs.

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

Llys-gennad Aur



Llongyfarchiadau i Beca Llwyd o Lanrug, un o lys-genhadon aur chwaraeon Gwynedd ar gwblhau 100 awr o weithgaredd gwirfoddol. Braf cael cofnodi hefyd mai wyth llys-gennad aur sydd yng Ngwynedd, a bod pedwar ohonynt yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail.

DRINGO'R YSGOL

Wedi cyfnod wedi anafu braf cofnodi fod Rhun Williams bellach yn ddewis cyntaf fel cefnwr i dim Gleision Caerdydd. Mae ei ddychwelyd i'r tim yn cyd-redeg a rhediad dda y tim yng Nghwpan Her Ewrop ac yn y Pro 14. Gyda'r gemau yma yn fyw ar y teledu gallwn weld datblygiad Rhun. Fel y tim cenedlaethol braf gweld fod ein timau rhanbarthol o'r diwedd yn rhoi cyfle i Gymru ifanc yn lle taflu arian mawr at dramorwyr sy'n nesu at ddiwedd gyrfaedd. Fel dywedai'r hen griw, 'os ydynt digon da maent yn ddigon mawr.'

Wedi bod yn graig yng nghanol cae tim merched Bethel dros dymhorau eu datblygiad, mae Mari Gibbard wedi trosglwyddo i dim Merched Llandudno yn y Gynghrair Genedlaethol. Diolchwn a dymunwn yn dda iddi yn ei menter. Agosach at gap gobeithio.

ECO'r
Wyddfa

**Cefnogwch ein
hysbysebwy**

Chwaraeon

Manteisio ar gyfleuon



Cael cyfle. Gweld cyfle. Methu cyfle. Gwrthod cyfle. Elwa o gyfle. Falch o'r cyfle. Bydd nifer ohonnom wedi gallu unioni a rhai o'r uchod ar daith bywyd. Bydd rhai yn falch, rhai yn diawlio, rhai yn edifar. Gwelir hyn yn aml ym myd y campau. Cofiaf erthygl a ysgrifennais yn yr Eco sawl blwyddyn yn ôl yn nodi faint o chwaraewyr yn ein timau oedd yn cynnwys sawl ex – trialist. Dim cweit digon da, neu diffyg ymroddiad.

Wel, yn Natalie Meek, 14 oed o Lanberis, mae gennym ferch ifanc sydd yn ceisio manteisio ar sawl cyfle mae clybiau a mudiadau y Fro yma yn ei gynnig.

Yn y byd pêl-droed mae'n chwarae yn safle'r cefnwr de yn nhim dan 16 Merched Bethel. Hyd yn hyn mae'r tîm yn cael tymor boddhaol o gofio fod nifer o'r genethod a thymor neu ddau arall yn yr oedran yma. Maent yn drydydd yn y gynghrair hyd yn hyn.

Ar yr asgell dde mae'n cynhyrchioli tîm hŷn Clwb Hoci Caernarfon, clwb sy'n cael sylw rheolaidd yn yr Eco. Tîm sy'n cynnwys sawl merch o Fro'r Eco.

Mae'n cystadlu mewn sawl camp fel aelod o glwb Athletau Menai. Eleni, bydd rhaid iddi gystadlu yn yr oedran -17. Felly, mae am ganolbwyntio ar y ras 300 metr. Ar hyn o bryd ei hamser gorau yw 46 eiliad.

O'r trac i'r llyn, ac mae yn ceisio meistrioli rheoli'r kayak dan arweiniad Clwb Antur Dyffryn Peris.

Mae'n aelod o glwb Pêl-rwyd Brynrefail, sy'n chwarae yng Nghyngrair Arfon. Mae hefyd wedi ei dewis yng ngharfan Gogledd- Orllewin Cymru. Wedi'r sesiynau hyfforddi bydd y tîm yma yn cystadlu mewn cystadleuaeth rhyng- daleithiol.

Dymunwn yn dda iddi, ple bynnag bydd y daith chwaraeon yn ei harwain. Defnydd athrawes Ymarfer Corff rhyw ddydd rwy'n tybio. Gobeithio croniclo'r daith i lwyddiant yn yr Eco yn y dyfodol.

Ond mae hi'n amlwg yn boblogaidd ymysg ei chyfoedion. Yng nghorff yr Eco yma gwelir apêl ganddi am gymorth arianol ar gyfer taith anhygoel .